Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Gorffennaf 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDCC**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDCC@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDCC**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Gorffennaf 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mai 2021. Ceir ei gylch gwaith yn **www.senedd.cymru/SeneddDCC**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**James Evans AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o’r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Peredur Owen Griffiths AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 5**

Diben y Bil ........ 5

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ........ 7

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ........ 9**

Ein barn ni ........ 10

**3. Sylwadau cyffredinol ........ 11**

Cefndir polisi ar ansawdd aer ........ 11

Yr angen am y Bil ........ 12

Amseriad y Bil ........ 16

Hygyrchedd ........ 16

Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth ........ 21

Defnyddio Bil drafft ........ 24

Ein barn ni ........ 24

Yr angen am y Bil a hygyrchedd ........ 24

Defnyddio pwerau dirprwyedig ........ 30

Defnyddio Bil drafft ........ 31

Goblygiadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 ........ 31

**4. Sylwadau penodol ar bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ........ 34**

Rhan 1 - Ansawdd aer ........ 35

Pennod 1 - Targedau cenedlaethol ........ 35

Cefndir i adrannau 1 i 7 ........ 35

Tystiolaeth ar adrannau 1 i 7 ..... 36

Ein barn ni ..... 44

Pennod 2 - Darpariaeth arall ..... 49

Adran 8 - Hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer ..... 49

Ein barn ni ..... 50

Adrannau 9 i 11 – Strategaeth ansawdd aer genedlaethol ..... 51

Ein barn ni ..... 53

Adran 16 - Rheoleiddio mwg a thanwydd mewn ardaloedd rheoli mwg ..... 54

Ein barn ni ..... 56

Adrannau 19 i 21 – Allyriadau cerbydau ..... 56

Ein barn ni ..... 60

Rhan 2 – Seinweddau ..... 61

Ein barn ni ..... 62

# 1. Cyflwyniad

## Ar 20 Mawrth 2023, cyflwynodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) (y Bil)[1] a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef[2].

**1.** Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar 28 Chwefror 2023, a gosododd 14 Gorffennaf 2023 fel y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar ei egwyddorion cyffredinol.[3]

**2.** Ar 22 Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth i'w gwneud o dan y Bil.[4]

**3.** Mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Pwysleisiodd ein Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021 i 2026 ein hymrwymiad i gyflwyno Deddf Aer Glân i Gymru, sy'n gyson â chanllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ac i ehangu'r ddarpariaeth o fonitro ansawdd aer. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr wybodaeth wyddonol ddiweddaraf, gan gynnwys y lefelau yn ôl canllawiau diweddaraf WHO, ochr yn ochr â chymryd cyngor arbenigol annibynnol, er mwyn llywio datblygiad targedau newydd o ran ansawdd aer."*[5]

## Diben y Bil

**4.** Mae enw hir y Bil yn datgan ei ddiben fel a ganlyn:

---

[1] Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), Memorandwm Esboniadol yn cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Mawrth 2023
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), Mawrth 2023
[4] Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) , 22 Mawrth 2023
[5] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.13

*"[g]wneud darpariaeth ar gyfer gwella ansawdd aer yng Nghymru; ar gyfer strategaeth genedlaethol i asesu a rheoli seinweddau yng Nghymru; ac at ddibenion cysylltiedig".*[6]

**5.** Mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol mai:

*"Nod cyffredinol y Bil yw cyflwyno mesurau a fydd yn cyfrannu at welliannau yn ansawdd yr amgylchedd aer yng Nghymru a lleihau effeithiau llygredd aer ar iechyd dynol, bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a'n heconomi".*[7]

**6.** Mae'r Gweinidog yn nodi yn y Memorandwm Esboniadol bod y "Bil yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol a fydd yn symleiddio, yn cryfhau ac yn ac ategu prosesau presennol i'w gwneud yn fwy effeithiol a hygyrch."[8]

**7.** Mae'r Gweinidog hefyd yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol bod angen ystyried y Bil mewn cyd-destun eang, a'i fod:

- yn rhan hanfodol o becyn o fesurau a nodir yn ein Cynllun Aer Glân i leihau llygredd a gludir yn yr aer a gwella'r amgylchedd aer yng Nghymru;[9][10]
- yn ategu deddfwriaeth bresennol ar sŵn (Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006[11]).[12]

**8.** Yn gryno, mae'r Bil yn cynnig:

- darparu fframwaith ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol;
- diwygio deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â'r canlynol:

  – y strategaeth ansawdd aer genedlaethol,

[6] Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[7] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.1
[8] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.4
[9] Llywodraeth Cymru, Cynllun Aer Glân i Gymru, Awyr Iach, Cymru Iach, Awst 2020
[10] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.2
[11] O.S. 2006 / 2629 (Cy. 225)
[12] Memorandwm Esboniadol, paragraffau 3.2 a 3.240

– rheoli ansawdd aer yn lleol,

– rheoli mwg,

– parthau aer glân/parthau allyriadau isel,

– segura cerbyd;

- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer;
- cyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol.[13]

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**9.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21 a 26C. Caiff y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater sy'n ymwneud â deddfwriaeth, datganoli, y cyfansoddiad, cyfiawnder, a materion allanol sydd o fewn cymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â chymhwysedd y Senedd neu Weinidogion Cymru, gan gynnwys ansawdd deddfwriaeth.

**10.** Wrth graffu ar Filiau a gyflwynir yn y Senedd, byddwn yn ystyried:

- materion sy'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd, gan gynnwys a yw Biliau'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- y cydbwysedd rhwng y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys ar wyneb y Bil a'r hyn a fydd yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth;
- a yw'r weithdrefn ddeddfwriaethol briodol wedi cael ei dewis mewn perthynas â rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth;
- unrhyw fater arall rydym yn ystyried ei fod yn berthnasol i ansawdd deddfwriaeth.

[13] Memorandwm Esboniadol, paragraff 1.5

**11.** Clywsom dystiolaeth gan y Gweinidog ar 15 Mai 2023.[14]

**12.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, ysgrifennwyd at y Gweinidog ar 25 Mai 2023 gyda chyfres o gwestiynau ychwanegol mewn perthynas â'r Bil.[15] Ymatebodd y Gweinidog ar 15 Mehefin 2023.[16]

**13.** Ar 28 Mehefin 2023, ysgrifennodd y Gweinidog at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ynghylch gwelliant arfaethedig i'r Bil yn ymwneud â rheoli mwg.[17]

**14.** Mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil yn debygol o gael ei chynnal ddechrau tymor yr hydref.[18]

**Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog ymateb i'r casgliadau a'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn o leiaf 14 diwrnod calendr cyn y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Cyfnod 1.

[14] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, trawsgrifiad Cofnod y Trafodion, 15 Mai 2023
[15] Llythyr at y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023
[16] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023
[17] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Mehefin 2023
[18] Mae'r dybiaeth hon yn seiliedig ar yr amserlen y cytunodd y Pwyllgor Busnes arni sy'n datgan y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 20 Hydref 2023, ar yr amod bod y Senedd yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

## Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[19]

**15.** Buom yn ystyried y Bil o dan y model cadw pwerau o gymhwysedd deddfwriaethol, fel y'i nodir yn adran 108A o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006).

**16.** Yn ei datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol, datganodd Elin Jones AS, y Llywydd, y byddai'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.[20]

**17.** Pan roddodd y Gweinidog dystiolaeth i ni ar 15 Mai 2023, cadarnhaodd ei bod yn fodlon bod y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd,[21] gan nodi nad oes darpariaethau yn y Bil sy'n gofyn cydsyniad Ysgrifenyddion Gwladol amrywiol o dan Atodlen 7B o Ddeddf 2006.[22] Ychwanegodd y canlynol:

> *"In relation to section 19 and Schedule 2 of the Bill, we've written to the Lord Chancellor, Secretary of State for Justice and the Chief Secretary to the Treasury, in accordance with paragraph 11(2) of Schedule 7B to the Government of Wales Act 2006, but, unfortunately, we have not had a response to date."*[23]

**18.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog i ba raddau roedd wedi ystyried hawliau dynol wrth lunio'r Bil ac esbonio pam nad yw'r Memorandwm Esboniadol yn sôn am faterion hawliau dynol. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"So, we've carried out the usual suite of impact assessments, including the equality and socioeconomic duty impact assessments. Obviously, the key aim of the Bill is to improve air quality to reduce airborne pollution and its negative impacts. In*

---

[19] Memorandwm Esboniadol, Datganiad yr Aelod, tudalen 1
[20] Datganiad y Llywydd ar Gymhwysedd Deddfwriaethol, 20 Mawrth 2023
[21] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [4]
[22] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [6]
[23] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [7]

> *as much as it might impact on A1, P1— article 1, protocol 1— in terms of individual rights, we think that any impact on that is fair and proportionate... We don't think it has any conceivable issue with human rights. I'm sure the committee will come on to this, but the only impacts, really, are in changing the penalties for particular parts of the regime, and in making something a civil matter instead of a criminal one. It's very hard to see how that particularly impacts on anyone's individual freedoms."*[24]

## Ein barn ni

**19.** Nodwn y dystiolaeth gan y Gweinidog am faterion sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol. At hynny, nodwn ddatganiad y Llywydd y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**20.** Nodwn, yn unol â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006, fod angen ymgynghoriad Gweinidog y Goron i ddod â darpariaethau penodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod hyn yn gymwys mewn perthynas ag adran 19 o'r Bil ac Atodlen 2 iddo. Nodwn fod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal ac nad oes angen cydnabyddiaeth gan Weinidog y Goron. Yn ein sesiwn dystiolaeth, nododd y Gweinidog nad oedd wedi cael ateb i'w llythyr at yr Arglwydd Ganghellor ynghylch paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf 2006.

**Argymhelliad 2.** Dylai'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ymateb a gaiff gan Lywodraeth y DU ynghylch ei gohebiaeth mewn cysylltiad â pharagraff 11(2) o Atodlen 7B i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**Casgliad 1.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog ar hawliau dynol ond credwn y dylai'r Memorandwm Esboniadol, fel mater o arfer da, bob amser gynnwys sylwadau ar yr ystyriaeth a roddwyd i oblygiadau hawliau dynol Bil.

[24] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [14]

# 3. Sylwadau cyffredinol

## Cefndir polisi ar ansawdd aer

**21.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog roi crynodeb o'r fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol, gan gynnwys drwy roi gwybodaeth am y targedau ansawdd aer presennol ac ar ba sail y'u gosodwyd. Nodwn ymateb y Gweinidog isod:

> *"Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar ansawdd aer yng Nghymru a'r DU yn deillio ar hyn o bryd o gymysgedd o ddeddfwriaeth ddomestig a rhyngwladol, ac mae'n cynnwys tair prif elfen:*
>
> *1. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio crynodiadau llygryddion mewn aer amgylchynol – Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am adrodd ar amrywiaeth o fathau o dargedau llygredd ac am gydymffurfio â nhw. Er enghraifft, mae llygryddion sydd â thargedau yn cynnwys nitrogen deuocsid, deunydd gronynnol, sylffwr deuocsid, osôn ar lefel y ddaear a metelau trwm. Roedd y targedau'n seiliedig ar ddadansoddi a negodi ar lefel yr UE, a chafodd dadansoddiad economaidd o'r costau a'r manteision yn y DU ei gynnal gan Lywodraeth y DU.*
>
> *2. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio cyfanswm allyriadau cenedlaethol pum llygrydd aer (nitrogen ocsid, sylffwr deuocsid, cyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn cynnwys methan, mân ddeunydd gronynnol ac amonia) – Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018 a Phrotocol Gothenburg i Gonfensiwn Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Unedig ar Lygredd Aer Trawsffiniol Pell. Yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am adrodd ar a chydymffurfio â thargedau y cytunir arnynt ar lefel y DU;*
>
> *3. Deddfwriaeth sy'n rheoleiddio allyriadau o ffynonellau penodol, fel allyriadau diwydiannol i'r aer a llosgi domestig, gan*

> *gynnwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 a Deddf Aer Glân 1993.*
>
> *O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n rhagflaenu llawer o Gyfarwyddebau'r UE y deilliodd llawer o'r ddeddfwriaeth uchod ohonynt, mae gan Weinidogion Cymru bwerau eang mewn perthynas ag ansawdd aer. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â phroblemau ansawdd aer ar raddfa leol drwy'r broses Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol. Mae'r broses hon yn mynnu bod awdurdodau lleol yn adolygu ac yn asesu ansawdd yr aer, gan gynhyrchu cynlluniau gweithredu lle canfyddir bod ansawdd yr aer yn wael ac mewn perygl o dorri amcanion ansawdd aer. Roedd y safonau (lefelau) yn seiliedig ar waith Panel Arbenigol Safonau Ansawdd Aer Llywodraeth y DU a grwpiau arbenigol eraill.*
>
> *Ar wahân i'r ddeddfwriaeth hon, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau i ymchwilio i gwynion ynglŷn â mwg sy'n achosi niwsans, mygdarth, arogleuon a llwch gan aelodau o'r cyhoedd dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990."*[25]

## Yr angen am y Bil

**22.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog beth y mae'r Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w wneud na all ei wneud o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"…this isn't a Bill that's an all-encompassing Bill in its own right. This is part of a suite of things that we're doing around environmental improvement, particularly in the air, and so it needs to be seen as part of a package of measures to improve air in Wales, and that's set out as part of the clean air plan (…) It's part of a whole series of things that we're doing in the air space, (…) So, we need to make sure that, in and of itself, it sits neatly in*

[25] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 4

*there and makes some sense and is not making the law less accessible, for example.*

*So, we want to change some things that we can't change without the Bill (…) We want to change the sanctions regime for smoke control from criminal to civil. (…) We want to change the penalties for anti-idling in particular. And we want to change Welsh Ministers' powers in terms of road user charging schemes, which are difficult at the moment, just to make them more understandable and accessible. (…) We have some broad powers under the environment Act, but the broad powers are very broad, and we think they're too broad, really, to achieve what I want to achieve, which is to hold this Government's and future Governments' feet to the fire around making sure that we're proactively doing something about our air quality all the time, and, as the data changes, we have the ability to change the targeting and so on."*[26]

**23.** Er mwyn deall yn well yr angen am y Bil, gwnaethom ofyn dau gwestiwn penodol i'r Gweinidog yn ein llythyr ar 25 Mai 2023.

**24.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog beth y mae'r Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i'w gyflawni ar dargedau ansawdd aer na ellir ei gyflawni o fewn y fframwaith deddfwriaethol ansawdd aer presennol. Ymatebodd y Gweinidog:

*"Mae'r Bil yn adeiladu ar bŵer gwneud rheoliadau eang iawn yn Adran 87 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn perthynas ag ansawdd aer a allai gynnwys gosod targedau tymor hir neu dymor byr mewn perthynas ag ansawdd aer.*

*Mae'r darpariaethau yn y Bil yn adeiladu ar hyn drwy ddarparu pwerau penodol, yn hytrach na rhai cyffredinol, i osod targedau hirdymor a dyletswydd i osod targed mewn perthynas â PM2.5*

[26] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [17 a 18]

*yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y targedau'n cael eu cyrraedd.*

*Mae'r Bil yn sefydlu fframwaith ar gyfer cynhyrchu targedau a dyletswyddau penodol sy'n mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cael ac yn cyhoeddi data ansawdd aer (…) y maent yn credu sy'n angenrheidiol i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau hyn. Rhaid adolygu targedau ac adrodd arnynt hefyd.*

*Felly, drwy'r Bil, rydym wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno mesurau sy'n cryfhau ac yn ategu'r fframwaith deddfwriaethol presennol; gan osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru lle nad oes rhai'n bodoli ar hyn o bryd.*

*Bydd darpariaethau'r Bil yn sicrhau nid yn unig bod targedau'n cael eu gosod ond bod Llywodraeth bresennol Cymru a llywodraethau yn y dyfodol yn cael eu dwyn i gyfrif ynghylch y targedau hyn."*[27]

**25.** Mae adran 1 o'r Bil yn cynnwys y pŵer i osod targedau hirdymor drwy reoliadau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer, ac mae adran 2 yn cynnwys pŵer i osod o leiaf un targed ar gyfer $PM_{2.5}$[28] mewn aer amgylchynol. Mae adran 4(2) o'r Bil yn darparu nad oes dim ym Mhennod 1 (adrannau 1 i 7 ar dargedau aer cenedlaethol) yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 87 o Ran IV (Ansawdd aer) o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* (Deddf 1995) i wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesu neu reoli ansawdd aer. Felly, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog esbonio'r berthynas rhwng Rhan IV o Ddeddf 1995 a'r Bil. Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*Mae adran 87 yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau eang sy'n berthnasol i reoliadau a wneir o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.*

[27] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 5

[28] Mae adran 2(3) o'r Bil yn datgan mai ystyr $PM_{2.5}$ yw deunydd gronynnol sydd â diamedr aerodynamig nad yw'n fwy na 2.5 o ficrometrau.

*Mae adran 87 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag ansawdd aer.*

*Bydd Adran 87 yn ategu Rhan 1 o'r Bil, yn enwedig y pwerau a'r dyletswyddau newydd ac ehangach yr ydym wedi'u cymryd yn adrannau 1 a 2. Mae'n bosibl y bydd rheoliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ansawdd aer yn cael eu gwneud drwy ddefnyddio pwerau yn adran 87 ac adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil.*

*Fel y nodir uchod mewn perthynas â chwestiwn 5, mae'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r darpariaethau yn Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Felly, mae'r fframwaith deddfwriaethol wedi'i gryfhau drwy gymryd y pwerau a'r dyletswyddau newydd hyn."*[29]

**26.** Gwnaethom ofyn pa dargedau ansawdd aer sydd ar waith ar hyn o bryd ac a oeddent yn ystyrlon. Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog y canlynol:

*"There are a range of targets and emission limits as well. A lot of that's from existing EU legislation and international standards, which have now been brought into domestic law (…) Some are similar to what the existing World Health Organization guidelines had in place. We're in a reasonably good place with most of those at the moment, but the WHO guidelines take us quite a lot further than where we are now."*[30]

**27.** Yn dilyn hynny, yn ei llythyr ar 25 Mai 2023, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

*"Mae gennym safonau ansawdd aer presennol sy'n parhau i fod mewn grym yng Nghymru, gan ddarparu parhad a sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal.*

*Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ystod o ganllawiau ansawdd aer diweddaraf Sefydliad Iechyd y Byd wrth ddatblygu*

[29] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 6
[30] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [87]

*cynigion targed newydd, ochr yn ochr â dadansoddiad, tystiolaeth a chyngor arbenigol annibynnol ar amrywiaeth o ffactorau."*[31]

## Amseriad y Bil

**28.** O ystyried na chaniateir i reoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil gael eu cyflwyno tan y Seithfed Senedd,[32] yn ein llythyr ar 25 Mai 2023, gofynnwyd i'r Gweinidog pam na chyflwynwyd Bil amgylcheddol mwy hollgynhwysol a chynhwysfawr ar ansawdd aer tan yn ddiweddarach yn y Chweched Senedd, a allai fod wedi sicrhau canlyniadau gwell drwy ddeddfwriaeth sylfaenol a bod yn gyson ag amcan Llywodraeth Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Mae'r Bil yn gynhwysfawr. Bydd ei ddarpariaethau, pan fyddant ar waith, yn arwain at welliannau amlwg yn yr amgylchedd aer, o ran ansawdd aer a seinweddau. Rydym mewn argyfwng hinsawdd a natur. O ganlyniad, rhoddwyd blaenoriaeth i gyflwyno'r Bil yn gynnar yn nhymor y Senedd hon er mwyn gallu craffu ar ei ddarpariaethau a phasio'r Bil, gobeithio, i'n galluogi i fwrw ymlaen i'w roi ar waith. Byddai oedi cyn cyflwyno yn arwain at oedi cyn gweithredu, ac ni chredaf fod unrhyw un o'n rhanddeiliaid wedi eirioli dros hynny.*
>
> *Hefyd, ni fyddai oedi cyn cyflwyno'r Bil yn effeithio ar ei ddarpariaethau."*[33]

## Hygyrchedd

**29.** O dan *Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol lunio a gosod rhaglen gerbron y Senedd i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mae'n rhaid i bob rhaglen wneud darpariaeth er mwyn cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith godeiddiedig,

[31] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 11
[32] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [69 a 109]
[33] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 3

hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

**30.** Nodwyd bod y Bil yn diwygio nifer o ddarnau hŷn o ddeddfwriaeth uniaith Saesneg, megis *Deddf Aer Glân 1993* (Deddf 1993). Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol:

> *"Nid yw Rhan III o Ddeddf Aer Glân 1993 wedi cael eu cydgrynhoi. Yn hytrach, mae atodlen newydd wedi cael ei chreu sy'n adlewyrchu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth sydd ar gyfer Lloegr yn unig ar hyn o bryd, gan dargedu'r darpariaethau penodol sydd fwyaf perthnasol i Gymru. Mae gwneud hyn yn cyflawni ein bwriad polisi ac yn darparu cysondeb cyffredinol â'r darpariaethau sydd mewn grym yn Lloegr ar hyn o bryd."*[34]

**31.** O ystyried y dull a fabwysiadwyd, gwnaethom ofyn i'r Gweinidog felly a oedd yn ystyried gwneud darpariaeth ar wyneb y Bil i gydgrynhoi yn hytrach na diwygio deddfwriaeth arall, yn enwedig er mwyn galluogi darpariaethau i fod yn gwbl ddwyieithog. Wrth ymateb, datganodd y Gweinidog y canlynol:

> *"…as I understand it, (…) because this isn't an all-encompassing Bill— it's a Bill that's intended to fit into other legislation— the attempt to do that in this Bill would have caused ripples across the other legislation in a way that was less than helpful and might actually make the Bill less accessible. (…) as I understand it, you'd then have to look at the interaction between this and various environment Acts and so on, and then the ripples of that would start to go out and you'd start to be looking at a very different Bill."*[35]

**32.** Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog y canlynol:

> *"…we obviously have considered consolidation. When you're amending primary legislation, it's something that's always considered, particularly when it's English-language legislation. But, in this case, the Bill has got a particular focus, and to carve*

[34] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.21
[35] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [36 i 37]

> *out parts of the body of environmental law and put them elsewhere— our view is that that results in a partial retelling of the story about air quality, for legislation about air quality. You mentioned the Clean Air Act 1993; taking out Part 3 of that takes it out of its context with other Parts of that Act that are about air quality. So, yes, overall, the view was that it wouldn't improve accessibility of law in this instance to just take those bits out."*[36]

**33.** Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd esbonio pam nad oedd y darpariaethau rheoli ansawdd aer lleol o Ddeddf 1995 yn cael eu trosi'n ddeddfwriaeth Cymru drwy'r Bil neu drosi'r holl ddarpariaethau ansawdd aer o Ddeddf 1995 i'r Bil. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"The main elements of the framework are still in place and all we're doing is amending the local air quality provisions in the existing framework. It didn't seem necessary or optimal in any way to transfer the entire framework, only to say, 'It's exactly the same, apart from these little bits', really. So, it's part of the same conversation. We've been trying to limit the Bill that this committee is now scrutinising, and, obviously, the policy committees have scrutinised as well, to its own parameters. We've been very clear that it's not an all-encompassing Bill, and a lot of what you're talking about would stretch it back out into starting to take in a whole pile of other things. So, I'm afraid it's part of the same issue, isn't it?*
>
> *And then, for me, there's a big issue about implementation, so do we have to spend the next two years doing consequential amendments before the thing is implementable? I didn't want to get into that. And also, you start to have what should be a fairly straightforward Bill taking up two thirds of the legal resource of the Welsh Government. So, I wouldn't want to get into that either, if I were honest."*[37]

[36] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [38]
[37] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [54 i 55]

**34.** At hynny, tynnodd y Gweinidog sylw at gymhlethdod Deddf 1995, gan ddweud y canlynol:

> *"it is replete with Secretary of State for England things, which also then apply to Wales. So, it's quite complicated."*[38]

**35.** Ychwanegodd fod bil sy'n ymwneud â llywodraethiant amgylcheddol i ddod, a thynnu sylw at bosibilrwydd cydgrynhoi cyfraith amgylcheddol yn y dyfodol.[39]

**36.** Yn ein llythyr at y Gweinidog ar 25 Mai 2023, codwyd nifer o bwyntiau sy'n ymwneud â hygyrchedd y ddeddfwriaeth.

**37.** Gofynnwyd sut y mae sylwadau'r Gweinidog, a rhai ei swyddogion, am hygyrchedd y Bil yn gyson â'r ffaith y bydd deddfwriaeth ar ansawdd aer yn awr yn cael ei nodi mewn Deddf Gymreig a dwy Ddeddf sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Rydym wedi gwneud rhywfaint o ddarpariaeth annibynnol, ond gellid cyflawni llawer o nodau'r Bil drwy ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.*
>
> *Mae ffocws penodol i'r Bil hwn.* Wrth ystyried sut i fynd ati i ddrafftio, roeddem o'r farn y byddai cydgrynhoi'r ddeddfwriaeth y mae'r Bil yn ei diwygio a'i hategu yn arwain at ailadrodd y stori am ansawdd aer yn rhannol. Gallai hyn fod yn niweidiol i hygyrchedd y gyfraith.
>
> *Mewn rhai achosion, er enghraifft mewn perthynas â darpariaethau rheoli ansawdd aer yn lleol, cymharol fach yw'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Bil hwn. Gallai ailddatgan cyfran fawr o'r ddeddfwriaeth wrth wneud diwygiadau o'r fath arwain at ddryswch.*
>
> *Byddai cynhyrchu Bil i gydgrynhoi'r holl ddeddfwriaeth ansawdd aer sy'n berthnasol i Gymru wedi bod yn broses hir a rhaid cael cydbwysedd rhwng yr angen am gydgrynhoi a'r*

[38] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [46]
[39] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [45 i 49]

*angen i roi darpariaethau'r Bil hwn ar waith cyn gynted â phosibl."*[40]

**38.** Ailadroddodd y Gweinidog rywfaint o'r farn hon pan wnaethom holi pam na fanteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio'r Bil i ddiweddaru, gwella a symleiddio elfennau o Ddeddf 1995 sy'n ymwneud ag ansawdd aer er mwyn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch.[41]

**39.** At hynny, gofynnwyd a wnaeth y cyfyngiadau capasiti ac adnoddau y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn ystod y sesiwn dystiolaeth gyda ni ddylanwadu ar y penderfyniad i beidio â chydgrynhoi cyfraith ansawdd aer mewn un Bil. Dywedodd y canlynol wrthym:

> "…mae'n rhaid ystyried y goblygiadau o ran adnoddau wrth ddechrau ar broses Bil. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad yn deillio o asesiad o'r darpariaethau sy'n bodoli eisoes a natur y diwygiadau yr oeddem yn ceisio eu gwneud."[42]

**40.** Yn ein hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil yr Amgylchedd[43], gwnaethom argymell y dylai Bil amgylcheddol yn y dyfodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â materion datganoledig ym Mil Amgylchedd Llywodraeth y DU, ar ôl ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, ac felly yn ein llythyr gofynnwyd i'r Gweinidog a allai roi gwybod a yw'r Bil yn cynnwys materion sy'n berthnasol i'r Bil hwnnw gan y DU ac, os felly, sut y mae'n mynd i'r afael â'r argymhelliad yn ein hadroddiad. [44]

**41.** Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Mae fframwaith cymhleth o gyfraith amgylcheddol ac mae rhywfaint ohono'n perthyn i'r cyfnod cyn datganoli. Rwyf yn ymwybodol o'r argymhelliad yn Adroddiad Medi 2021 a'n*

[40] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 2
[41] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 2
[42] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 2
[43] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd, Medi 2021, argymhelliad 1
[44] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 28 Medi 2021

> *cytundeb i'w dderbyn mewn egwyddor. Nid yw hynny wedi newid. (…)*
>
> *Mae ein Bil yn diwygio nifer cyfyngedig o ddarpariaethau a fewnosodwyd yn Neddf yr Amgylchedd 1995 gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae hyn yn cynnwys y diwygiad i roi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r cyfnod adolygu ar gyfer y Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol, felly rydym yn adolygu deddfwriaeth Cymru yn Neddfau'r DU yn gyson. Fodd bynnag, byddai ymgorffori'r darpariaethau y rhoesom gydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn ein Bil yn creu risg o ddull gweithredu tameidiog iawn."*[45]

## Y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth

**42.** Mae'r Gweinidog yn tynnu sylw yn y Memorandwm Esboniadol bod y Bil (ym Mhennod 1 o Ran 1) yn cynnig creu "fframwaith gosod targedau ar gyfer ansawdd aer".[46]

**43.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam na ddewisodd roi targedau ar wyneb y Bil gyda'r gallu i'w diwygio drwy reoliadau. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"I don't think we know what those targets should look like right now. I think there's a real risk, if we did put targets on— . There are three separate things, actually. So, whether the actual targets themselves would mean anything. I think we'd probably have to set them at a point where they probably didn't, in order to be inside the data issues that we've got. What is the point of that? You're basically setting a target that says, 'It's all right as it is for a bit.' I'm not very keen on that as a way forward."*[47]

[45] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 1
[46] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.36
[47] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [79]

**44.** Nododd y Gweinidog hefyd fod y Bil yn rhoi pŵer ac yn gosod dyletswydd i gasglu pwyntiau data amrywiol[48] ac y byddai rheoliadau'n dilyn o'r data[49].

**45.** Esboniodd y dull ymhellach fel a ganlyn:

> *"…it's about trying to calibrate futureproofing, near-futureproofing, with data collection, so that we have these stretching targets, because what we all want is for us to get pollutants out of the air as fast as is possible and practicable."*[50]

**46.** Nododd y Gweinidog hefyd na fyddai rhoi targedau ar wyneb y Bil yn ystyrlon ac na fyddai'n gyrru'r gwelliannau sydd eu hangen.[51] Ychwanegodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog y canlynol:

> *"We could have to bring quite serious action to get down to certain levels in certain areas, depending on the pollutants … So, we'd be in a situation where we weren't sure if we could do it, and the guidelines themselves say that it needs to take account of local circumstances as well, for which you need the evidence to be able to do that. But, more broadly (…) it's not about just the health guidelines; there are environmental standards and socioeconomic guidance, and you need to combine all of that together to get the full suite of evidence to inform what those targets should be. Otherwise, we could end up having unachievable and unrealistic targets, really."*[52]

**47.** Wrth ei holi am y gweithdrefnau craffu sy'n gysylltiedig â gwneud rhai o'r rheoliadau, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"Broadly speaking, we've used the negative procedure where there's already a regulation power that has a negative procedure attached to it, because we're restating some of the Environment Act things, for example, and there are already negative procedures in place, so we've restated them. But,*

[48] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [22]
[49] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [61]
[50] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [26]
[51] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [80 i 82]
[52] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [85]

*honestly, I am very happy to consider anything that the committee thinks should be changed in either direction, actually. I don't think we need positive procedures for everything. Some things are pretty administrative in nature and, frankly, you'll have seen yourself in Plenary the number of times I have read out a statement on a regulation that's got a positive procedure attached to it and not a single Member has wanted to comment, or even understood a word I just said, and it's gone through on the nod."*[53]

**48.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

*"…the point I'm making is (…) if we streamlined it so that the ones where nobody is really very interested in them and they're so technical that you've got very little chance of understanding what they are— . Frankly, I can think of some of the chemical ones— well, I don't think I understood what I read out loud, never mind anything else, and I'm happy to say that in a public broadcast. These things are very technical in nature. You rely heavily on very specialist advisers to tell you about transporting chemicals in various— . I've no idea, and that should be a negative procedure, in my view. I don't think there's any point in that being a positive procedure.*

*Whereas when we're talking about things that members of the committee will have a very determined interest in, and will be very well informed about because they're being heavily lobbied (…), that's a wholly different thing, isn't it, where you can have a proper set of scrutiny provisions in place and a positive procedure is necessary. I am very happy to discuss with the committee whether we've got the balance right or not in this Bill."*[54]

[53] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [114]
[54] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [116 i 117]

## Defnyddio Bil drafft

**49.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan y canlynol:

> *"O ystyried yr ymgynghori helaeth ar y Cynllun Aer Glân i Gymru, yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, nifer yr ymatebion a ddaeth i law a'r gwaith ymgysylltu dilynol, ni[d] ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft."*[55]

**50.** Gofynnwyd i'r Gweinidog ymhelaethu ynghylch pam nad aed ar drywydd Bil drafft; dywedodd y canlynol wrthym:

> *"So, this is always the difficulty, isn't it, whether you want to wait for a draft Bill to be ready— there's a timescale issue there— or whether you think it's already clear enough. And I think, small 'p' politically, we've waited a long time for this Bill. So, I think if we'd waited until we could get a draft Bill out to consultation before we came anywhere near actually introducing it we'd have been waiting even longer. And I think we were ready, really. The draft Bill doesn't hold any major surprises. Where there is a surprise, which is on the soundscapes issue, that's been consulted on separately anyway. (...) So, I just think, in the interests of getting the Bill into the Senedd— and it's pretty transparent what it is— we just didn't think it was worth waiting is the real truth."*[56]

## Ein barn ni

### Yr angen am y Bil a hygyrchedd

**51.** Un o'n prif bryderon wrth ystyried y Bil hwn oedd i ba raddau roedd yn angenrheidiol, yn enwedig o ystyried y fframwaith deddfwriaethol presennol ar ansawdd aer. Nodwn, pan ddywedodd y Gweinidog wrthym pa newidiadau na ellid eu gwneud heb y Bil, fod ei hymateb yn canolbwyntio ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfundrefn sancsiynau rheoli mwg, cosbau am wrthsegura a

[55] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.41
[56] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [28]

phwerau ar gyfer cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd (er y dywedodd nad oedd yn bwriadu defnyddio cynlluniau o'r fath).

**52.** Er ein bod yn cydnabod ac yn croesawu ymrwymiad a bwriad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yng Nghymru, nid yw'n glir i ni pam y mae Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil yn angenrheidiol ar hyn o bryd.

**53.** Y prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y farn hon yw ein hansicrwydd ynghylch yr amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau i osod targedau hirdymor o dan adran 1, a hefyd na chaniateir cyflwyno rheoliadau o dan adran 2 mewn perthynas â $PM_{2.5}$ tan y Seithfed Senedd.

**54.** Rydym yn cydnabod bod yr oedi cyn cyflwyno rheoliadau oherwydd bod angen iddynt gael eu llywio gan y data perthnasol y dywedodd y Gweinidog wrthym nad ydynt ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y nodwn ym mhennod 4 o'n hadroddiad, mae'r ddyletswydd i gasglu data at ddibenion monitro targedau, yn hytrach na'u gosod. Yn ogystal, gallai data i lywio darn o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y dyfodol neu i osod targedau yn y dyfodol gael eu casglu heb ofyniad deddfwriaethol.

**55.** Yn ein barn ni, ni fydd y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn dechrau gwneud gwelliannau gwirioneddol mewn ansawdd aer nes bod Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau drwy reoliadau (drwy ddefnyddio'r pwerau y mae'r Bil yn eu darparu) ar ryw adeg yn y dyfodol.

**56.** Felly, y cwestiwn sy'n codi yw pam y mae angen deddfu nawr a chymryd pwerau gwneud rheoliadau eang cyn bo'r data perthnasol ar gael i alluogi gosod targedau heriol ond cyflawnadwy.

**57.** Felly, nid ydym yn rhannu barn y Gweinidog bod y Bil yn gynhwysfawr nac y "[b]yddai oedi cyn cyflwyno yn arwain at oedi cyn gweithredu". Yn ein barn ni, mae'n ymddangos bod Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil – darpariaethau sydd wrth wraidd y ddeddfwriaeth – yn arwydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

**58.** Rheswm arall dros ein diffyg eglurder ynghylch pam y mae angen Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil nawr yw oherwydd y trefniadau deddfwriaethol presennol. Nodwn y gellid defnyddio pwerau yn adran 87 o Ddeddf 1995 o bosibl i osod y targedau a gynigir yn y Bil a bod y pwerau hyn eu hunain yn cael eu diwygio i sicrhau bod

gofynion ymgynghori ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 87 o'r Ddeddf honno'n adlewyrchu arfer gorau'n well.[57] Rhan o gyfiawnhad y Gweinidog dros gymryd y pwerau gwneud rheoliadau ym Mhennod 1 o Ran 1 o'r Bil yw bod y pwerau presennol yn Neddf 1995 yn rhy eang i gyflawni'r hyn roedd y Gweinidog am ei gyflawni o ran dwyn i gyfrif. Nid ydym o'r farn bod y cyfiawnhad hwn yn argyhoeddiadol o ystyried y Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn anad dim oherwydd bod y pwerau sy'n cael eu cymryd yn eithriadol o eang eu hunain.

**59.** Nodwn, hefyd, fod adran 4(2) o'r Bil yn datgan nad oes dim ym Mhennod 1 (o Ran 1) yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o dan adran 87 o Ddeddf 1995 i wneud rheoliadau ar gyfer asesu neu reoli ansawdd aer. Fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl y gellid gwneud rheoliadau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ansawdd aer drwy ddefnyddio pwerau yn adran 87 ac adrannau 1 a/neu 2 o'r Bil. Mae hefyd yn ymddangos i ni y gallai llywodraeth yn y dyfodol benderfynu peidio â defnyddio'r pwerau yn y Bil i osod targedau ansawdd aer hirdymor neu dargedau $PM_{2.5}$ ond, yn hytrach, yn defnyddio pwerau o dan y fframwaith presennol yn Neddf 1995 a fyddai'n golygu bod targedau o'r fath yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf honno yn hytrach na'r gyfundrefn newydd o dan y Bil. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd na fyddai dyletswydd benodol ar Weinidogion Cymru i gyflawni targedau yn y dyfodol a bennir o dan Ddeddf 1995, ond y byddai dyletswydd o'r fath arnynt o dan y Bil (yn rhinwedd adran 4).

**60.** Mae hyn yn dod â ni at hygyrchedd y Bil. Ein rôl ni, yn rhannol, yw asesu ansawdd y Bil fel cynnig ar gyfer darn newydd o gyfraith, sy'n cynnwys ei hygyrchedd a'i gydlyniaeth, yn enwedig o ran pa mor hawdd y mae'n debygol o gael ei ddeall gan ddinasyddion.

**61.** Rydym yn cydnabod sylwadau'r Gweinidog y gall cydgrynhoi fod yn broses hir a bod yn "rhaid cael cydbwysedd rhwng yr angen am gydgrynhoi a'r angen i roi darpariaethau'r Bil hwn ar waith cyn gynted â phosibl".

**62.** Fodd bynnag, rydym wedi cadarnhau, ar ansawdd aer yn benodol, na fydd darpariaethau allweddol yn y Bil yn cael eu gweithredu tan y Seithfed Senedd, a fyddai'n golygu y byddent yn ddibynnol ar flaenoriaethau llywodraeth wahanol.

[57] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.114

**63.** Rydym hefyd yn nodi sylwadau'r Gweinidog na fwriedir i'r Bil fod yn hollgynhwysol, bod "ffocws penodol" iddo ac y bwriedir iddo gyd-fynd â deddfwriaeth arall. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn cynrychioli dewis Llywodraeth Cymru; gallai fod wedi gwneud dewis gwahanol, yn enwedig o ystyried ei barn ddatganedig na wnaeth yr adnoddau sydd ar gael ddylanwadu ar ei dull.

**64.** Rydym hefyd yn nodi'r awgrym y "gellid cyflawni llawer o nodau'r Bil drwy ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes", a allai awgrymu bod hwylustod drafftio wedi cael mwy o ddylanwad ar y dull a fabwysiadwyd, yn hytrach na phryderon ynghylch hygyrchedd y gyfraith i ddinasyddion.

**65.** Felly, rydym yn pryderu nad yw'r Bil yn gyson ag amcanion Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer cyflawni cyfraith hygyrch a dwyieithog. Yn destun pryder arbennig oedd sylwadau'r Gweinidog nad oedd yn teimlo bod trosglwyddo'r fframwaith cyfan i'r Bil yn angenrheidiol neu'n ddelfrydol o gwbl a bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn ceisio cyfyngu ar y Bil y mae'r Pwyllgor hwn bellach yn craffu arno.

**66.** Nid ydym yn cytuno y gallai ailddatgan cyfran fawr o'r ddeddfwriaeth wrth wneud mân ddiwygiadau, ym marn y llywodraeth, arwain at ddryswch. Nid ydym yn cytuno chwaith y gallai cydgrynhoi arwain at "ailadrodd y stori am ansawdd aer yn rhannol". Yn ein barn ni, mae'r canlyniad hwnnw'n fwy tebygol o beidio â chydgrynhoi o gwbl.

**67.** Nid ydym yn credu y byddai wedi bod yn feichus cydgrynhoi Rhan IV o Ddeddf 1995 yn y Bil, yn enwedig o gofio mai dim ond 11 adran sy'n gymwys o ran Cymru ac mae'r Bil eisoes yn ceisio diwygio darpariaethau presennol yn y Rhan honno o Ddeddf 1995 yn rhinwedd adrannau 9 i 15 ac adran 21 ym Mhennod 2 o Ran 1 o'r Bil.

**68.** Byddai ymarfer cydgrynhoi o'r fath wedi rhoi cyfle i ddiweddaru a gwella'r darpariaethau ansawdd aer presennol a'u cydgysylltu â Phennod 1 o Ran 1 o'r Bil. Yn benodol, byddai wedi osgoi cael dau bŵer gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer mewn dwy Ddeddf wahanol, a galluogi cyfundrefn fwy cyson ar gyfer adrodd, adolygu a monitro targedau. Nid ydym yn credu y byddai dull o'r fath yn ddryslyd neu'n niweidiol i hygyrchedd y gyfraith.

**69.** Byddai Bil sy'n cynnwys darpariaethau wedi'u cydgrynhoi'n fwy hefyd wedi rhoi cyfle i'r Senedd a rhanddeiliaid graffu ar bob agwedd ar ddeddfwriaeth sy'n ceisio cyflawni amcanion polisi ansawdd aer Llywodraeth Cymru ac, yn unol â hynny, ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei dull cyfan yn y maes polisi hwn.

**70.** Felly, nid ydym yn rhannu barn y Gweinidog bod y Bil, fel y'i drafftiwyd, yn gynhwysfawr.

**71.** Nodwn y defnyddiwyd adrannau trosolwg yn y Bil Amaethyddiaeth i wella hygyrchedd y Bil lle y mae deddfwriaeth bresennol yn cael ei diwygio. Rydym yn synnu nad ydynt wedi'u defnyddio yn y Bil hwn at y diben hwnnw. Credwn hefyd, yn niffyg cydgrynhoi, y byddai'n werth darparu adran drosolwg i esbonio'r berthynas rhwng Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil a darpariaethau sy'n ymwneud â thargedau ansawdd aer yn Rhan IV o Ddeddf 1995.

**Casgliad 2.** Nid yw'n glir i ni pam y mae angen Pennod 1 o Ran 1 o'r Bil ar hyn o bryd o gofio na ellir cyflwyno rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adrannau 1 a 2 tan naill ai'n hwyr yn y Chweched Senedd neu ddechrau'r Seithfed Senedd oherwydd diffyg data perthnasol i lywio gosod targedau.

**Casgliad 3.** Gallai'r Bil fod wedi cael ei ohirio a'i gyflwyno'n ddiweddarach yn y Chweched Senedd heb effeithio ar osod targedau ansawdd aer drwy reoliadau o dan y Bil.

**Casgliad 4.** Mae'r Gweinidog wedi colli cyfle i gyflwyno Bil hygyrch sy'n ymdrin ag ansawdd aer, yn gyson ag amcanion Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer gwella hygyrchedd cyfraith Cymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog esbonio'n glir pam y mae angen y Bil ar hyn o bryd o ystyried ei bod yn bosibl na fydd rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu cyflwyno yn ystod y blynyddoedd nesaf, ac o ystyried bod fframwaith deddfwriaethol presennol yn Rhan IV o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* sy'n caniatáu gosod targedau ar ansawdd aer.

**Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i'r Bil i ymgorffori Rhan IV o *Ddeddf yr Amgylchedd 1995* fel ffordd o ddarparu darn dwyieithog, hygyrch ac wedi'i gydgrynhoi o gyfraith ar ansawdd aer.

**Argymhelliad 5.** O ran y gwelliannau rydym yn eu hawgrymu yn argymhelliad 4, dylai'r Gweinidog ddarparu testun y gwelliannau arfaethedig i'r Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith erbyn 31 Awst 2023.

**72.** Er ein bod yn parhau i fod o'r farn y dylai darpariaethau wedi'u cydgrynhoi fod wedi ymddangos yn y Bil wrth ei gyflwyno, drwy argymhelliad 3 rydym yn ceisio mynd i'r afael â sefyllfa nad yw'n ddelfrydol a gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Gall darparu testun arfaethedig y gwelliannau i'r Pwyllgorau perthnasol erbyn 31 Awst 2023 alluogi mwy o amser i'w hadolygu a'u hystyried cyn trafodion Cyfnod 2 (os derbynnir egwyddorion cyffredinol y Bil).

**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog gadarnhau ein dealltwriaeth nad oes dim yn y Bil nac unrhyw ddeddfwriaeth arall a fydd yn atal unrhyw un o Weinidogion Cymru - ar hyn o bryd neu yn y dyfodol - rhag defnyddio darpariaethau yn *Neddf yr Amgylchedd 1995* i osod targedau hirdymor ar gyfer ansawdd aer a thargedau ar gyfer y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol. Os yw ein dealltwriaeth yn anghywir, dylai'r Gweinidog esbonio pam y mae'n anghywir.

**Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i fewnosod adrannau trosolwg yn unol â'n sylwadau ym mharagraff 71 i wneud y Bil yn fwy hygyrch.

**Argymhelliad 8.** Dylai'r Gweinidog ddatgan pa flaenoriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar gydgrynhoi'r gyfraith ar yr amgylchedd o ystyried ei sylwadau am ei chymhlethdod ac yn arbennig pan fo'r gyfraith ar ansawdd aer yn debygol o gael ei chydgrynhoi yn y dyfodol.

**73.** Wrth geisio canfod bwriad y Gweinidog ynglŷn â gosod targedau ar gyfer ansawdd aer o ganlyniad i'r Bil, roedd yn ymddangos bod y Gweinidog yn awgrymu nad oedd yn realistig cyflawni'r targedau presennol sy'n deillio o ddeddfwriaeth yr UE ac a nodir yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010[58]. Rydym yn tynnu sylwadau'r Gweinidog at sylw'r Senedd, o ystyried penderfyniad y Gweinidog i beidio â chydgrynhoi deddfwriaeth ar ansawdd aer (gan gynnwys y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ar osod targedau) ac at

[58] O.S. 2010 / 1433 (Cy. 126)

ba ddiben y gosodir y targedau (gan gynnwys i fynd i'r afael ag effaith ansawdd aer gwael ar iechyd, yr economi a natur).

## Defnyddio pwerau dirprwyedig

**74.** Mae adrannau 1 a 2 o'r Bil yn darparu pwerau gwneud rheoliadau sy'n fframwaith eu natur, sy'n golygu y bydd llawer o'r manylion polisi yn ymddangos mewn is-ddeddfwriaeth yn hytrach nag ar wyneb y Bil. Rydym wedi mynegi pryder yn barhaus am y defnydd o bwerau o'r fath ac am gymryd pwerau at ddiben 'diogelu at y dyfodol'.[59]

**75.** Felly, rydym yn pryderu am ddiffyg manylion polisi ar wyneb y Bil mewn perthynas ag adrannau 1 a 2. Rydym yn gwneud sylwadau'n benodol ar y pwerau gwneud rheoliadau y maent yn eu cynnwys ym mhennod 4 o'r adroddiad.

**76.** Mae gennym bryderon hefyd ynghylch Gweinidogion Cymru yn cymryd pwerau nad ydynt yn bwriadu eu defnyddio rhag ofn y bydd eu hangen ar ryw adeg yn y dyfodol. Mae hyn yn gymwys i'r pŵer sydd i'w gymryd yn adran 19 o'r Bil mewn perthynas â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ac rydym yn gwneud sylwadau ar hyn yn benodol ym mhennod 4.

**77.** Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, gwnaeth y Gweinidog rai sylwadau ynghylch y weithdrefn sy'n gysylltiedig â gwneud is-ddeddfwriaeth rydym wedi'i hatgynhyrchu ym mharagraffau 47 i 48.

**78.** Gall hwyluso newidiadau polisi drwy reoliadau y gellir eu hystyried yn rhai technegol gael goblygiadau sylweddol i ddinasyddion, cyrff cyhoeddus a busnesau. Cyfrifoldeb y Gweinidog yw sicrhau bod y newidiadau hynny'n cael eu hesbonio'n glir drwy Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil a hefyd mewn amgylchiadau pan fyddant yn destun dadl a chymeradwyaeth yn y Senedd dan y weithdrefn gadarnhaol. Credwn ei bod yn bwysig bod Aelodau'n gallu cael y cyfle i wneud sylwadau ar bolisi sylweddol (gan gynnwys materion technegol) a gynhwysir mewn rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn enwedig mewn amgylchiadau pan all materion o'r fath fod

[59] Gweler, er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil Ddeddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu), Ebrill 2022; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad Blynyddol 2021/22, Hydref 2002, paragraff 18; y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar y Bil Amaethyddiaeth (Cymru), Ionawr 2023

wedi'u cynnwys yn fwy priodol ar wyneb y Bil. Rydym yn anghytuno â sylwadau'r Gweinidog. Rydym o'r farn bod y sylwadau'n ddiofal, gan nad ydynt yn dangos y lefel ddisgwyliedig o barch i'r Senedd a'i Haelodau, nac i rôl craffu.

### Defnyddio Bil drafft

**79.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog ynghylch yr angen am Fil drafft a bod ymgynghoriad wedi'i gynnal ar ystod o ddogfennau polisi. Fodd bynnag, rydym am dynnu sylw at y ffaith bod ymgynghori ar gynigion ac egwyddorion polisi'n wahanol i ymgynghori ar gyfer Bil drafft. Mae'r olaf yn cynnig cyfle i graffu cyn y broses ddeddfu ar sut y mae llywodraeth yn bwriadu trosi'r bwriad polisi hwnnw'n gyfraith a cheisio barn gynnar felly gan randdeiliaid am ddull y llywodraeth.

**80.** Credwn y byddai wedi bod yn bosibl ymgynghori ar ddrafft o'r Bil presennol neu Fil mwy hygyrch ac wedi'i gydgrynhoi, heb effeithio ar allu'r Gweinidog i gyflawni ei hamcanion polisi, yn anad dim oherwydd amseriad tebygol arfaethedig y rheoliadau dilynol rydym yn eu hystyried uchod ac ym mhennod 4.

### Goblygiadau Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023

**81.** Gwnaethom waith craffu manwl ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), sef Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 erbyn hyn.[60] Rydym yn ailadrodd ein safbwynt bod gan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 oblygiadau sylweddol i'r Senedd.

**82.** Mae Atodlen 1 i Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 yn rhestru cyfraith yr UE a ddargedwir a gaiff ei dirymu ar 31 Rhagfyr 2023, gan gynnwys cyfraith ar ansawdd aer.

**83.** Mae Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi dweud wrthym y canlynol o'r blaen am gyfraith yr UE a ddargedwir:

> *"Retained EU Law (REUL) includes some of the most important and powerful legislation we have to protect the environment and nature, such as the Habitats Regulations, air quality and*

[60] Cafodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 29 Mehefin 2023.

> *water regulations and regulations on environmental assessment.”*[61]

**84.** Rydym yn ymwybodol, yn ystod cyfnodau olaf hynt Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir drwy Senedd y DU, y gwthodwyd gwelliannau i sicrhau nad oedd safonau amgylcheddol yn atchwelyd.

**85.** Cefnogodd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru gynnwys dim atchwelyd yn ei adroddiad ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir, a gyhoeddwyd cyn mewnosod Atodlen 1 i'r Bil.[62] Wrth ymateb i adroddiad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, dywedodd y Gweinidog y canlynol mewn llythyr:

> *"Rydym yn cytuno nad ydym am weld y Bil yn arwain at ddirywiad yn safonau amgylcheddol Cymru. Mae’n hen ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod safonau amgylcheddol yn cael eu cynnal, eu cryfhau a’u gwella yn dilyn ymadawiad y DU â’r UE.*
>
> *Nid yw Llywodraeth Cymru felly yn bwriadu caniatáu i gyfraith yr UE a ddargedwir mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys cyfraith amgylcheddol yr UE a ddargedwir, ddod i ben na chaniatáu dirywio safonau heddiw nac yfory oni bai bod rhesymau hynod dda am wneud hyn."*[63]

**86.** Nodwn farn Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, mewn tystiolaeth i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar 21 Mehefin 2023, nad oedd gostyngiad posibl mewn safonau amgylcheddol yn fater cyfredol iddi.[64] Rhannwyd y farn hon yn dilyn mewnosod Atodlen 1 i Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

**87.** Ar 7 Gorffennaf 2023, rhoddodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad wybod i ni, wrth adolygu cyfraith yr UE a ddargedwir yn Atodlen 1, mai “asesiad Llywodraeth Cymru yw nad yw hi'n ymddangos y bydd unrhyw broblemau i feysydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn deillio o

[61] Llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gan Cyswllt Amgylchedd Cymru, 18 Tachwedd 2022
[62] IEPAW, Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), Chwefror 2023, paragraff 39
[63] Llythyr gan y Gweinidog at Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, 12 Mai 2023
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion [300]

ddirymu'r offerynnau a restrir yn yr Atodlen." Rhoddir pwerau i Weinidogion Cymru o dan adran 1(4) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir o'r Atodlen a, thrwy hynny, ei harbed. Mae'n rhaid arfer y pwerau hyn erbyn 31 Hydref 2023. Fodd bynnag, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd Llywodraeth Cymru "ar hyn o bryd yn gweld yr angen i arfer pwerau o'r fath ac nid oes gennym gynlluniau cyfredol i'w defnyddio".[65]

**Argymhelliad 9.** Mae'n rhaid i'r Gweinidog egluro'r cyd-ddibyniaethau ar frys rhwng y materion yr ymdrinnir â hwy yn y Bil hwn a chyfraith yr UE a ddargedwir a restrir ar Atodlen 1 i Ddeddf 2023 sy'n ymwneud ag ansawdd aer, allyriadau a llygredd aer a fydd yn cael ei dirymu ar 31 Rhagfyr 2023.

**88.** Nodwn fod Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir 2023 yn rhoi pwerau Gweinidogol eang i wneud newidiadau sylweddol i gyfraith yr UE a ddargedwir y tu allan i Atodlen 1, gan eu bod yn ymwneud â'r materion yr ymdrinnir â hwy yn y Bil hwn.

**Argymhelliad 10.** Dylai'r Gweinidog egluro a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cadw cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â materion yr ymdrinnir â hwy yn y Bil drwy ddefnyddio pwerau a roddir i Weinidogion Cymru drwy Ddeddf 2023. heblaw am y pŵer i eithrio cyfraith yr UE a ddargedwir o Atodlen 1.

**89.** Nodwn fod y diffiniad o ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Bil yn cynnwys "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir".[66] Mae adran 9 o'r Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn dileu statws arbennig deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fel na chaiff ei thrin mwyach fel deddfwriaeth sy'n cyfateb i ddeddfwriaeth sylfaenol ac, yn hytrach, y gellir ei diwygio gan bwerau cyffredin i ddiwygio is-ddeddfwriaeth. Yn ein barn ni, gallai cynnwys deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn niffiniad y Bil hwn o ddeddfwriaeth sylfaenol achosi dryswch am y rheswm hwn.

**Argymhelliad 11.** Dylai'r Gweinidog ymdrin â'n pryderon ynghylch y dryswch posibl drwy ddiffinio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fel deddfwriaeth sylfaenol yn sgil adran 9 o *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*.

[65] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 7 Gorffennaf 2023
[66] Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, adran 26(7)(d)

# 4. Sylwadau penodol ar bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

**90.** Mae'r Bil yn cynnwys 28 o adrannau a 2 Atodlen. Mae'n cael ei rannu'n 3 Rhan:

- Rhan 1 - Ansawdd Aer
- Rhan 2 - Seinweddau
- Rhan 3 - Cyffredinol

**91.** Mae 19 o ddarpariaethau yn y Bil sy'n cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a gorchmynion a chyhoeddi canllawiau a chyfarwyddydau.[67] O'r 19 pŵer hyn:

- bydd deg pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol,
- mae'r pwerau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol,
- bydd un pŵer yn ddarostyngedig naill ai i'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol, gan ddibynnu a ddefnyddir y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol,
- nid yw pum pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn.

**92.** Mae ein hystyriaeth isod yn canolbwyntio ar adrannau penodol a phwerau gwneud rheoliadau yn yr adrannau hynny rydym am eu pwysleisio ac, yn unol â hynny, eu tynnu at sylw'r Senedd.

[67] Ceir crynodeb o'r pwerau hyn yn Nhablau 5.1 a 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol (tudalennau 60 i 69).

# Rhan 1 - Ansawdd aer

## Pennod 1 - Targedau cenedlaethol

**93.** Mae Pennod 1 yn nodi'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gosod targedau ansawdd aer cenedlaethol ar gyfer Cymru i'w gosod o dan y Bil, eu hadolygu ac adrodd arnynt. Bydd y fframwaith yn cyd-fynd â deddfwriaeth bresennol yn y maes hwn, megis Rhan IV o Ddeddf 1995.

### Cefndir i adrannau 1 i 7

**94.** Mae adran 1 (Targedau ansawdd aer: cyffredinol) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Rhaid i darged a osodir o dan y rheoliadau hyn bennu safon i'w chyflawni, y mae'n rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol, a dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.

**95.** Mae adran 2 (Targedau ansawdd aer: deunydd gronynnol) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod o leiaf un targed, mewn rheoliadau, mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$[68] mewn aer amgylchynol yng Nghymru. Caiff rheoliadau osod targedau hirdymor (ond nid oes rhaid iddynt fod yn rhai hirdymor) a chânt ddiffinio "aer amgylchynol".

**96.** Mae rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft oherwydd bod "prif sylwedd ... (h.y. lefel y targed) yn y Rheoliadau)" ar gyfer pob adran.[69]

**97.** Mae adran 3 (Y broses o osod targedau) yn nodi'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn gosod, diwygio neu ddirymu targed ansawdd aer hirdymor o dan adran 1, a chyn gosod neu ddiwygio targed $PM_{2.5}$ o dan adran 2.

**98.** Mae adran 4 (Effaith targedau) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau o dan adrannau 1 a 2 yn cael eu cyflawni. Mae hefyd yn datgan nad oes dim ym Mhennod 1 yn effeithio ar bŵer Gweinidogion Cymru o

[68] Mae adran 2(3) o'r Bil yn datgan mai ystyr $PM_{2.5}$ yw deunydd gronynnol sydd â diamedr aerodynamig nad yw'n fwy na 2.5 o ficrometrau.
[69] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 70

dan adran 87 o Ddeddf 1995 i wneud rheoliadau ar gyfer asesu neu reoli ansawdd aer.

**99.** Mae adran 5 (Adrodd ar dargedau) yn nodi'r dyletswyddau adrodd a osodir ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â thargedau a osodir o dan adrannau 1 a 2. Mae'n rhaid i reoliadau a wneir o dan adrannau 1 a 2 bennu dyddiad adrodd ar gyfer targedau.

**100.** Mae adran 6 (Adolygu targedau) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu targedau o dan adrannau 1 a 2, gan geisio cyngor gan arbenigwyr annibynnol a rhoi sylw i wybodaeth wyddonol am lygredd aer.

**101.** Mae adran 7 (Monitro hynt cyflawni targedau) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu cael gafael ar ddata o'r fath ynghylch ansawdd aer yng Nghymru y maent yn ystyried eu bod yn briodol i fonitro hynt cyflawni targedau o dan adrannau 1 a 2 ac yna mae'n rhaid iddynt gyhoeddi'r data hynny.

### Tystiolaeth ar adrannau 1 i 7

**102.** Gwnaethom drafod targedau ansawdd aer â'r Gweinidog, yn gyffredinol ac yn benodol o ran yr adrannau fel y'u drafftiwyd.

*Cyffredinol*

**103.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"What I desperately don't want to do is to put targets in place that are just not achievable (…) what we want is to have stretching but achievable targets that can be moved downwards, or indeed upwards, if you're looking at pure air, commensurate with the data, that allows the Government to be able to hold its own feet to the fire."*[70]

**104.** Dywedodd hefyd fod angen proses graffu drylwyr ar gyfer y rheoliadau i sicrhau bod y targedau'n parhau i herio ond y gellir eu gweithredu.[71]

[70] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [23]
[71] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [23]

**105.** Nid oedd y Gweinidog yn credu bod y pŵer i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau ansawdd aer yn rhy eang. Wrth wneud hynny, cyfeiriodd at yr angen am ddiogelu at y dyfodol i raddau a'r diffyg data, gan ddweud y canlynol:

> *"…I don't want to set a target only to discover, when we get the data in, that, actually, it's meaningless.*
>
> *So, it's about trying to calibrate futureproofing, near-futureproofing, with data collection, so that we have these stretching targets, because what we all want is for us to get pollutants out of the air as fast as is possible and practicable."*[72]

**106.** Mae Pennod 3 eisoes wedi ystyried dull y Gweinidog o ddefnyddio pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 1 a 2 o'r Bil yng nghyd-destun y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sydd i'w gynnwys drwy is-ddeddfwriaeth. Mae'r dystiolaeth honno hefyd yn berthnasol yma.

**107.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog yn benodol am osod canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar wyneb y Bil. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n well ganddi eu gweld mewn rheoliadau,[73] gan ychwanegu'r canlynol:

> *"…we might want to go further in some respects than the WHO guidelines, because, here in Wales, once we've got the data, we may be able to go further. So, I wouldn't want to be slavishly adhered to, what is, after all, a world-wide kind of standard. I have to say, at this point, I wouldn't want to be seen to be not adhering to it, but I kind of feel we might be able to do better."*[74]

**108.** Pan wnaethom bwyso ar y Gweinidog ynghylch rhoi canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar wyneb y Bil ac yna cael y gallu i'w diwygio wedyn drwy reoliadau, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

[72] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [25 i 26]
[73] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [29 i 30]
[74] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [32]

> *"…we couldn't achieve them. So, you would be doing exactly as I said at the beginning: you'd be putting unachievable targets onto the face of a Bill…"*[75]

**109.** Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym hefyd yn ei llythyr ar 15 Mehefin 2023:

> *"Am resymau yr wyf wedi'u hamlinellu, ni chaiff targedau eu gosod ar wyneb y Bil. Mae angen eu gosod mewn rheoliadau er mwyn inni gael yr hyblygrwydd i'w diwygio a'u diweddaru yn unol â thystiolaeth a chyngor gwyddonol."*[76]

**110.** Gwnaethom drafod ymgynghori ar y rheoliadau â'r Gweinidog. Nid yw'r Gweinidog wedi esbonio ei safbwynt,[77] gan nodi'r canlynol:

> *"…we've got to consult about the plan, we've got to consult about the data, we've got to publish it all. What would you do with a Government who had consulted absolutely everything, and everybody had come back, and said, 'Absolutely, you should regulate', and then they don't?"*[78]

**111.** Yn dilyn hynny, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"Rydym am i dargedau fod yn uchelgeisiol, yn hygred, yn gost-effeithiol ac yn cael eu cefnogi gan gymdeithas. Felly, mae'n hanfodol bod arbenigwyr a rhanddeiliaid yn cyfrannu at y broses hon er mwyn sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu, ei harchwilio a'i phrofi'n briodol."*[79]

**112.** Dywedodd y Gweinidog hefyd y canlynol:

> *"I'm quite happy to discuss with the committee (…) whether you want some kind of superaffirmative procedure and, if you did,*

[75] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [89]
[76] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 3
[77] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [61 i 67]
[78] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [65]
[79] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023, ymateb i gwestiwn 11

> *what would that look like, because, as you know, there are several options in that."*[80]

**113.** O ran pryd y byddai'r targedau'n cael eu gosod, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"We say within three years, and that's based on how long we think it will take us to get a robust set of data. I'd be really reluctant to shorten that, because I don't want to cut corners on the data collection. Three years from where we sit now is quite difficult politically, because I'd quite like to do it before the end of the Senedd term, but at the same time I'd quite like to get it right".*[81]

**114.** Gwnaethom hefyd ystyried materion penodol mewn perthynas â Phennod 1 o'r Bil.

*Adran 1 – Targedau ansawdd aer: cyffredinol*

**115.** Gofynnwyd i'r Gweinidog esbonio pam y mae ar Weinidogion Cymru angen pŵer gwneud rheoliadau mor eang i osod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru.

**116.** Ymatebodd y Gweinidog:

> *"Mae'n rhan o fframwaith sy'n pennu pwerau Gweinidogion Cymru i osod targedau hirdymor. Mae'n cael ei ategu gan y dyletswyddau ychwanegol a nodir yn adran 3 (sy'n pennu'r broses gosod targedau), adran 4 (effaith targedau), adran 5 (adrodd), adran 6 (adolygu) ac adran 7 sy'n gosod dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau ar gyfer casglu data ansawdd aer i fonitro'r cynnydd tuag at gyrraedd targedau a osodir o dan y Bil.*
>
> *Fel y nodir uchod yn yr ymateb i gwestiwn 5, mae'r pwerau a'r dyletswyddau yn Rhan 1 o'r Bil yn mynd y tu hwnt i'r pwerau a'r dyletswyddau presennol a roddir ar Weinidogion Cymru mewn*

[80] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [67]
[81] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [69]

*deddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud ag ansawdd aer, ac yn eu hategu.*

*Mae'r pŵer yn adran 1, ac yn fwy cyffredinol yn Rhan 1 yn adlewyrchu natur uchelgeisiau Gweinidogion Cymru yn y maes hwn."*[82]

**117.** Er mwyn deall sut y gellid defnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1, gwnaethom ofyn a oedd materion yn y Cynllun Aer Glân i Gymru na fyddai'r pŵer gwneud rheoliadau yn eu cwmpasu a pha faterion, os o gwbl, y tu allan i'r Cynllun y gallai'r pŵer gwneud rheoliadau fynd i'r afael â hwy. Gwnaethom ofyn hefyd a oedd diwydiannau, cyrff neu safleoedd na allent fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1 ac a ellid defnyddio rheoliadau o'r fath i reoli materion sy'n ymwneud ag ansawdd aer megis niwsans cyhoeddus neu arogleuon er enghraifft. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

*"Mae'r pŵer yn adran 1 yn caniatáu Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer gosod targedau hirdymor mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Pwrpas unrhyw dargedau ansawdd aer newydd yw lleihau'r niwed a achosir drwy ddod i gysylltiad ag ansawdd aer gwael i iechyd pobl, natur a'r amgylchedd. (…)*

*Felly, mae camau gweithredu yn y Cynllun sydd y tu hwnt i gwmpas pŵer gwneud rheoliadau. Fodd bynnag, mae diben y targedau ansawdd aer y gellir eu gosod o dan adran 1 yn gwbl gyson â nod cyffredinol y Cynllun, sef gwella ansawdd aer yng Nghymru.*

*O ran diwydiannau, cyrff neu safleoedd na allent fod yn ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1, Gweinidogion Cymru fyddai'n ddarostyngedig i reoliadau a wneir o dan adran 1. Gweinidogion Cymru sy'n gorfod sicrhau (yn unol ag adran 4(1)(a)) bod targedau a osodir o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu cyrraedd. Bydd rheoliadau o dan adran 1 yn gosod targedau sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru. Ni fyddant yn*

[82] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin, ymateb i gwestiwn 7

*benodol i ffynhonnell hy ni fyddant yn nodi diwydiannau, cyrff na safleoedd penodol. Camau gweithredu a gymerir y tu allan i'r rheoliadau a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl cyflawni'r targedau.*

*Ni ddatblygwyd y pŵer i wneud rheoliadau i reoli materion sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus ac arogleuon (…) Mae deddfwriaeth bresennol sy'n ymdrin â niwsans ar gyfer materion sy'n cynnwys allyriadau mwg, llwch, nwyon ac arogleuon, a nodir, er enghraifft, yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990."*[83]

**118.** Mae'r pŵer i gyflwyno targedau o dan adran 1 yn ddewisol. Pan wnaethom ofyn pam nad oedd dyletswydd ar y Gweinidog i gyflwyno targedau, dywedodd y Gweinidog y byddai'n barod i edrych ar hynny, ond y byddai angen edrych ar yr amserlen[84].

**119.** Yn ein llythyr ar 25 Mai 2023, gwnaethom ofyn pryd y bydd rheoliadau o dan adran 1 yn cael eu gosod gyntaf, a pham nad oes cyfnod terfyn ar gyfer gosod y set gyntaf o reoliadau (fel sydd ar gyfer rheoliadau o dan adran 2). Ni wnaeth ymateb y Gweinidog ateb y cwestiwn hwn yn uniongyrchol.

**120.** Gofynnwyd i'r Gweinidog pam nad oes diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil. Wrth nodi nad yw ansawdd aer wedi'i ddiffinio yn Neddf 1995 na *Deddf yr Amgylchedd 2021* (Deddf 2021), dywedodd y Gweinidog y "Bwriedir i'r ymadrodd gael ei ystyr arferol ac felly nid oes angen diffiniad.[85] Pan wnaethom ofyn beth yw dealltwriaeth y Gweinidog o'r ystyr arferol hwnnw, dywedodd y canlynol:

*"Mae ansawdd aer yn derm sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio pa mor llygredig yw'r aer yr ydym yn ei anadlu. Pan fydd ansawdd yr aer yn wael, gall llygryddion yn yr aer fod yn beryglus i'r amgylchedd ac i bobl, yn enwedig pobl â chyflyrau ar yr ysgyfaint neu'r galon. Gall llygryddion gael eu rhyddhau o ffynonellau artiffisial neu naturiol."*[86]

[83] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023, ymateb i gwestiwn 10
[84] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [94 i 97]
[85] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023, ymateb i gwestiwn 8
[86] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 25 Mai 2023, ymateb i gwestiwn 9

### *Adran 2 – Targedau ansawdd aer: deunydd gronynnol*

**121.** Mae adran 2(1) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol gosod targed mewn cysylltiad â'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru. Yn rhinwedd adran 3(8), mae'n rhaid i reoliadau sy'n gosod targed ansawdd aer o dan adran 2(1) gael eu gosod ar ffurf drafft gerbron y Senedd ac o fewn tair blynedd i gael y Cydsyniad Brenhinol. Gwnaethom ofyn a fyddai'r Gweinidog yn siomedig pe bai'n rhaid aros tan y Seithfed Senedd i gael y targedau hynny ar waith. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"I would (…) it's been explained to me a lot why the three years is necessary. It takes us a while to get the data stations in place, it takes the data a while to come in, it takes a while for them to be analysed. The three years is part of the discussion we've had. I'd like to do it this Senedd term, right? So, the three years makes that kind of possible, but I also don't want to do it in circumstances where we're basically just making it up, because we don't have any of the right data."*[87]

**122.** Mae adran 2(4) o'r Bil yn datgan y caiff rheoliadau sy'n gosod targed ansawdd aer $PM_{2.5}$ wneud darpariaeth sy'n diffinio "aer amgylchynol". Gofynnwyd i'r Gweinidog pam y mae'r term hwn i'w ddiffinio mewn rheoliadau, yn hytrach nag ymddangos ar wyneb y Bil. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"…mae adran 2 yn cynnwys pŵer i greu math penodol iawn o darged mewn perthynas â lefelau deunydd gronynnol yn yr aer amgylchynol. Felly, mae angen diffinio'r hyn a olygir gan "aer amgylchynol". Mae'r diffiniad hwn yn cael ei adael i'w nodi mewn rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i gael digon o hyblygrwydd i osod targed priodol, ac yn wir i allu gosod mwy nag un targed os oes angen."*[88]

[87] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [109]
[88] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 12

### *Adran 7 – Monitro hynt cyflawni targedau*

**123.** Yn ei thystiolaeth, gwnaeth y Gweinidog nifer o gyfeiriadau at y ddyletswydd i gasglu data. Er enghraifft, dywedodd y canlynol wrthym:

> *"…we're trying to get the best of all possible worlds in this Bill to put a duty on us to do the data collection, and to do it within a time frame that might get us into this Senedd term, but frankly doesn't cut so many corners that we end up with a set of regulations that aren't what we'd like them to be."*[89]

**124.** Fel y nodwyd gennym yn gynharach, ystyrir bod casglu data'n bwysig yng nghyd-destun gosod targedau ansawdd aer o dan y Bil.

**125.** Yn ystod ei hymddangosiad gerbron y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, dywedodd y Gweinidog nad yw data yng Nghymru yn wych.[90] Pan wnaethom ofyn beth yw'r rheswm dros hyn, esboniodd y Gweinidog fod data Cymru wedi'u casglu fel y mae eu hangen a bod data hefyd yn cael eu casglu mewn lleoedd acíwt, yn hytrach na rhai cyffredinol.[91] Esboniodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog fod y rhwydwaith yn cael ei weithredu'n bennaf ar lefel y DU drwy Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a bod yr awdurdodau lleol hefyd yn gwneud eu gwaith monitro eu hunain at ddibenion penodol.[92] Rhoddodd y Gweinidog wybodaeth hefyd am rai o'r trefniadau presennol ar gyfer monitro ansawdd aer yng Nghymru.[93]

**126.** Yn y Memorandwm Esboniadol (mewn adran ar hybu ymwybyddiaeth o dan adran 8 o'r Bil), mae'r Gweinidog yn datgan y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid a allai ymdrin â gwella data ansawdd aer.[94] Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pa gynlluniau cyflawni y

---

[89] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [69] Hefyd er enghraifft, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [22 ac 61]
[90] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 29 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion [38]
[91] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [73]
[92] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [76]
[93] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 13
[94] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.82

cyfeiriwyd atynt a'u sail statudol. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"Rydym wedi cynnig gweithredu'r ddyletswydd codi ymwybyddiaeth drwy ddatblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid.*
>
> *Pwrpas y cynllun cyflawni yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cyflawni ein dyletswydd yn rhagweithiol o dan y ddarpariaeth hon.*
>
> *Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi camau gweithredu posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i'r ffordd mae data ansawdd aer presennol yn cael ei gyflwyno, a sicrhau ei fod yn hawdd ei ddeall. Ond gallai hefyd gynnwys mentrau sy'n ymgysylltu'n weithredol â chymunedau i wella ansawdd aer, fel gwyddoniaeth dinasyddion neu weithgareddau gwrthsegura.*
>
> *Mae'n bwysig datblygu'r cynllun ar y cyd â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym wedi darparu enghreifftiau o gamau gweithredu i ddangos yr ystod eang o weithgareddau y gallem eu gwneud wrth weithredu'r ddyletswydd hon."*[95]

### Ein barn ni

**127.** Rydym eisoes wedi gwneud sylwadau ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn ynghylch natur fframwaith y pwerau yn adrannau 1 a 2.

**128.** Rydym yn cydnabod bod gosod targedau ar wyneb y Bil yn niffyg data i lywio eu paratoi'n debygol o fod yn wrthgynhyrchiol.

**129.** Fodd bynnag, fel mater o egwyddor ac os bydd data ar gael, byddai'n hollol resymol gosod targedau ar wyneb y Bil a chaniatáu iddynt gael eu diwygio'n dilyn adolygiad drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

[95] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 13

Nid oes angen gosod targedau mewn rheoliadau i'w galluogi i gael eu diwygio a'u diweddaru.

**130.** Yn ogystal, nodwn y byddai gosod targedau ar wyneb y Bil yn cynnig mantais, sef cael y polisi cysylltiedig sy'n sail i'r targedau ar wyneb y Bil hefyd.

**131.** Wrth holi am y pŵer gwneud rheoliadau o dan adran 1, gwnaethom geisio deall sut y gellid defnyddio'r pŵer - mater allweddol i'r Pwyllgor hwn. Y rheswm dros hyn yw y tynnir y pŵer, fel y drafftiwyd y Bil, yn eithriadol o eang o ystyried y gellid gwneud rheoliadau ar "unrhyw fater sy'n ymwneud ag ansawdd aer yng Nghymru" ac ymddengys nad oes cyfyngiadau ar y materion posibl hynny.

**132.** Nid oeddem o'r farn bod ymateb y Gweinidog i'n cwestiwn ar y mater hwn yn arbennig o foddhaol. Esboniodd na fydd targedau'n cael eu cymhwyso i ddiwydiannau, cyrff neu safleoedd penodol, gan nodi y bydd camau'n cael eu cymryd y tu allan i'r rheoliadau. Fodd bynnag, ni nododd y Gweinidog y camau hynny a sut y byddant yn cael eu datblygu. Nododd y Gweinidog hefyd nad oedd y pŵer o dan adran 1 wedi'i ddatblygu i reoli materion sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus ac arogleuon, ond ni ddatganodd yn bendant na chaniateir eu defnyddio at y diben hwnnw drwy osod targedau priodol.

**133.** Credwn fod y pŵer gwneud rheoliadau yn adran 1 yn llawer rhy eang. Mae diffyg manylion polisi yn adran 1 ac mae'r ffordd benodol y mae'r Gweinidog yn bwriadu defnyddio'r pwerau yn aneglur ac yn amhenodol. O ganlyniad, mae gormod o ddisgresiwn yn cael ei adael i Weinidogion Cymru. Felly, credwn y byddai o fudd i adran 1 gynnwys manylion am y polisi a'r egwyddorion sy'n sail i osod targedau gan reoliadau o dan adran 1 a'r camau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu dilyn er mwyn cyflawni'r targedau a gaiff eu gosod.

**Argymhelliad 12.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 1 o'r Bil:

- i ddarparu manylion am y polisi a'r egwyddorion (yn hytrach na'r broses) sy'n sail i osod targedau, gan gynnwys manylion am ddibenion penodol defnyddio'r pwerau (gan gwmpasu, er enghraifft, y materion y gellid gosod targedau ar eu cyfer);
- i nodi cyfyngiadau ar sut y caniateir arfer y pŵer gwneud rheoliadau.

**Argymhelliad 13.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu gwybodaeth am y camau y bydd eu hangen i gyflawni'r targedau a osodir drwy reoliadau o dan adran 1 ac i bwy y bydd y camau hynny'n gymwys.

**134.** Nodwn y rhesymau a gyflwynwyd gan y Gweinidog am beidio â chynnwys diffiniad o ansawdd aer ar wyneb y Bil a'i hymateb i'n cwestiwn am ystyr cyffredin ansawdd aer.

**135.** Credwn y dylai dyletswydd fod ar y Gweinidog i wneud rheoliadau o dan adran 1 a bod yn rhaid gosod drafft o'r rheoliadau gerbron y Senedd o fewn 3 blynedd i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol, fel sy'n digwydd ar gyfer rheoliadau i’w gwneud o dan adran 2. Os oes angen cyfnod o dair blynedd er mwyn cael data i osod targedau o dan adran 2, ni welwn reswm pam na ddylai fod yn gymwys i reoliadau i'w gwneud o dan adran 1.

**Argymhelliad 14.** Dylai’r Gweinidog gyflwyno gwelliant i’r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 1.

**Argymhelliad 15.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o reoliadau o dan adran 1 cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd gan ddechrau â'r dyddiad y mae'r Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

**136.** Yn yr un modd ag adran 1 o'r Bil, credwn ei bod yn bwysig bod y Gweinidog yn esbonio'r camau y mae'n bwriadu eu dilyn er mwyn cyflawni targedau a fydd yn cael eu gosod o dan adran 2.

**Argymhelliad 16.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ddarparu gwybodaeth am y camau y bydd eu hangen i gyflawni'r targedau a osodir drwy reoliadau o dan adran 2 ac i bwy y bydd y camau hynny'n gymwys.

**137.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod y diffiniad o aer amgylchynol i'w gynnwys drwy reoliadau (yn hytrach na'i osod ar wyneb y Bil) er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gael digon o hyblygrwydd i osod targed neu dargedau priodol. Fodd bynnag, ni wnaeth yr ymateb hwn ateb y cwestiwn a ofynnwyd, yn anad dim oherwydd nad yw'n glir pam na allai'r un hyblygrwydd fod yn gymwys pe bai'r diffiniad ar wyneb y Bil.

**138.** Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud wrthym fod “angen diffinio’r hyn a olygir gan “aer amgylchynol”” o ystyried bod adran 2 yn creu math penodol iawn o darged.

**139.** Nodwn hefyd fod rheoliad 2 o Reoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 yn diffinio aer amgylchynol ac nad yw wedi'i ddiwygio ers 2010.

**Argymhelliad 17.** Dylai'r Gweinidog ddatgan a yw'r diffiniad o aer amgylchynol yn debygol o newid gyda threigl amser ai peidio.

**Argymhelliad 18.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 2 o’r Bil i gynnwys diffiniad o aer amgylchynol.

**Argymhelliad 19.** Os gwrthodir argymhelliad 18, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil yn ei gwneud yn ddyletswydd i ddiffinio aer amgylchynol mewn rheoliadau.

**Argymhelliad 20.** Dylai'r Gweinidog esbonio'r goblygiadau, os o gwbl, o gael dau ddiffiniad o aer amgylchynol mewn deddfwriaeth ar yr un pryd: diffiniad a gyflwynwyd o ganlyniad i'r Bil hwn a diffiniad yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010.

**140.** Rydym yn nodi bod rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg manylion ar wyneb y Bil a phwysigrwydd y targedau ar gyfer cyflawni gwelliannau mewn ansawdd aer, credwn y dylent fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

**Argymhelliad 21.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i weithdrefn uwchgadarnhaol fod yn gymwys i wneud rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil, yn dilyn y weithdrefn a nodir yn adran 53 o'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru), fel y’i pasiwyd.

**141.** Mae adran 12 o'r Bil yn diweddaru adran 87(7) o Ddeddf 1995. Mae adran 87(7) yn rhagnodi â phwy y mae'n rhaid ymgynghori pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno. Mae’r Gweinidog yn datgan y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Mae Adran 87(7) fwy neu lai heb ei newid ers i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 gael Cydsyniad Brenhinol, bron 28 mlynedd*

*yn ôl. Nid yw bellach yn adlewyrchu'r arferion gorau mewn perthynas ag ymgynghori. Er enghraifft, nid yw'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch rheoliadau a wneir o dan Ran IV."*[96]

**142.** Os yw'r Gweinidog yn gwrthod ein hargymhelliad i gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i wneud rheoliadau o dan adrannau 1 a 2, credwn y dylid gosod dyletswydd i ymgynghori ynghylch rheoliadau o dan yr adrannau hyn ar wyneb y Bil. Byddai'n anghyson i ddyletswydd i ymgynghori gymhwyso i reoliadau sy'n gosod targedau o dan adran 87 o Ddeddf 1995, ond nid i reoliadau sy'n gosod targedau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil. Mae hyn hefyd yn pwysleisio, yn eithaf amlwg, pam rydym yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â chydgrynhoi Rhan IV o Ddeddf 1995.

**Argymhelliad 22.** Os yw'r Gweinidog yn gwrthod argymhelliad 21, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod rheoliadau i'w gwneud o dan adrannau 1 a 2 yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ymgynghori yn unol ag adran 87(7) o Ddeddf 1995 fel y'i diwygiwyd gan adran 12 o'r Bil.

**143.** Mae'r Gweinidog wedi egluro bod data yn rhan annatod o gyflawni'r amcanion polisi sy'n gysylltiedig â'r Bil yn llwyddiannus.

**144.** Mae tystiolaeth y Gweinidog yn nodi bod angen data i osod targedau. Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn adlewyrchu'r safbwynt hwn. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol trefnu cael gafael ar ddata at ddiben monitro targedau, yn hytrach na'u gosod.

**145.** Yn ogystal, nid oes dyletswydd i gyhoeddi manylion y trefniadau ar gyfer cael gafael ar ddata, yr ydym yn credu eu bod yn arbennig o bwysig o ystyried cyfaddefiad y Gweinidog nad yw'r trefniadau casglu data ar gyfer Cymru yn wych.

**146.** Felly, credwn y dylid cryfhau'r Bil, yn enwedig fel modd o wella tryloywder a sicrhau bod modd dwyn Llywodraeth Cymru a llywodraethau'r dyfodol i gyfrif am sut y caiff data eu casglu o ystyried eu pwysigrwydd i gyflawni'r amcanion polisi sy'n gysylltiedig â'r Bil.

[96] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.114

**Argymhelliad 23.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol casglu data at ddiben gosod targedau.

**Argymhelliad 24.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau y cyhoeddir y trefniadau y mae'n eu gwneud ar gyfer cael gafael ar ddata ar ansawdd aer.

## Pennod 2 - Darpariaeth arall

**147.** Mae Pennod 2 yn gwneud darpariaeth ynghylch hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer (adran 8), y strategaeth ansawdd aer genedlaethol (adrannau 9 i 11), rheoli ansawdd aer gan awdurdodau lleol (adrannau 13 i 14), rheoli mwg (adrannau 16 i 18) ac allyriadau cerbydau (adrannau 19 i 21). Mae Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud gwelliannau i Ddeddf 1993 o ganlyniad i'r ddarpariaeth a wneir gan y Rhan honno. Mae Atodlen 2 i'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer darpariaethau cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ac mewn cysylltiad â hwy.

### Adran 8 - Hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer

**148.** Mae adran 8 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol a achosir gan lygredd aer, a ffyrdd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno.

**149.** Fel rydym eisoes wedi pwysleisio ym mharagraff 126 uchod, dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

> *"Rydym wedi cynnig gweithredu'r ddyletswydd codi ymwybyddiaeth drwy ddatblygu cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid.*
>
> *Pwrpas y cynllun cyflawni yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n cyflawni ein dyletswydd yn rhagweithiol o dan y ddarpariaeth hon."*[97]

[97] Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 15 Mehefin 2023, ymateb i gwestiwn 13

## Ein barn ni

**150.** Fel y'i drafftiwyd, mae adran 8 yn datgan bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer yng Nghymru. Fodd bynnag, credwn y dylai adran 8 roi mwy o bwyslais ar hybu ymwybyddiaeth am fanteision aer glân. Credwn fod hyn yn fwy tebygol o ysgogi newid ymddygiad, fframio'r dull polisi mewn ffordd fwy cadarnhaol ac ymgysylltiol, a'i fod yn golygu bod y ddeddfwriaeth yn fwy tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

**151.** Rydym hefyd o'r farn bod y ddyletswydd bresennol yn adran 8 yn oddefol oherwydd nad oes manylion yn y Bil ynghylch sut, pryd a pha gamau sydd i'w cymryd i hybu ymwybyddiaeth. O ganlyniad, nid oes dim i fesur nac asesu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol i sicrhau ei bod yn atebol i'r ddyletswydd hon.

**152.** Nodwn gan y Gweinidog fod dyletswydd Gweinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth i'w chyflawni drwy gynllun cyflawni. Rydym hefyd yn nodi nad oes gofyniad statudol i lunio cynllun cyflawni.

**153.** Credwn y gellid cryfhau adran 8 o'r Bil drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cynllun cyflawni priodol i hybu ymwybyddiaeth ac i Weinidogion Cymru adrodd yn gyfnodol i ddangos eu cynnydd o ran hybu ymwybyddiaeth.

**Argymhelliad 25.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 8 o'r Bil i sicrhau bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth o aer glân, yn ogystal â'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

**Argymhelliad 26.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio cynllun cyflawni sy'n nodi'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i hybu ymwybyddiaeth o fanteision aer glân a'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

**Argymhelliad 27.** Dylai Gweinidogion Cymru adrodd bob blwyddyn yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r cynllun ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o fanteision aer glân a'r risgiau sy'n gysylltiedig â llygredd aer.

## Adrannau 9 i 11 – Strategaeth ansawdd aer genedlaethol

**154.** Mae adran 9 (Pŵer i newid cyfnod adolygu'r strategaeth) yn mewnosod is-adran (8) newydd yn adran 80 (Strategaeth ansawdd aer genedlaethol) o Ddeddf 1995. Mae hyn yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau newydd i Weinidogion Cymru ddiwygio cyfnod adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol. Bydd unrhyw reoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol oherwydd eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, sef Deddf 1995.[98]

**155.** Mae adran 10 (Ymgynghori wrth adolygu'r strategaeth) yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru, wrth adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol, ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru, a'r cyhoedd.

**156.** Mae adran 11 (Dyletswydd i roi sylw i'r strategaeth) yn mewnosod adran 81B newydd (Swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol ac ati) yn Neddf 1995. Mae adran 81B(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol roi sylw i'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol wrth arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus a allai effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru. O dan is-adrannau (2) a (3) o adran 81B, mae person yn "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" os yw wedi ei ddynodi felly gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran 81B(3), mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r person y cynigir ei ddynodi'n "awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol" ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft oherwydd, "pe ba[ent] cael e[u h]arfer", y byddent "yn rhoi dyletswydd gyfreithiol sylweddol ar yr Awdurdodau Cyhoeddus yng Nghymru sy'n cael eu dynodi".[99]

**157.** Mae adran 11(3) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 1995 i roi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhyoeddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol y mae'n rhaid iddynt hwy, yn eu tro, roi sylw iddynt.

[98] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 71
[99] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 72

**158.** Gwnaethom edrych ar hygyrchedd a chydgrynhoi, yn benodol yng nghyd-destun darpariaethau'r Bil ynghylch y strategaeth aer genedlaethol. Mae adrannau 9 a 10 o'r Bil yn diwygio adran 80 o Ddeddf 1995 fel y disgrifir uchod. Er bod adran 80 wedi'i diwygio gan Ddeddf 2021 i ddileu cyfeiriadau at Brydain Fawr, mae adran 80(1) yn dal i ddatgan y canlynol:

> *"The Secretary of State shall as soon as possible prepare and publish a statement (in this Part referred to as "the strategy") containing policies with respect to the assessment or management of the quality of air."*

**159.** Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Weinidogion Cymru drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999[100]. Nid oes troednodiadau na chyfeiriadau ar wyneb y ddeddfwriaeth i gyfeirio at drosglwyddo swyddogaethau. Hefyd, nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn datgan sut y mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan adran 80 i lunio a chyhoeddi strategaeth aer genedlaethol. Nid oes esboniad ynghylch sut y mae'n gyfrifoldeb Gweinidogion Cymru, yn hytrach na chyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol (a fyddai, yn niffyg esboniad o'r fath, yn gofyn dadansoddiad cyfreithiol manwl gan berson lleyg).

**160.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam nad yw'r Bil yn diwygio adran 80(1) o Ddeddf 1995 i'w gwneud yn gwbl glir bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth aer genedlaethol. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"… as I understand it, in the 1995 Act, there's a duty to prepare a strategy. That's predating devolution. So, that clearly wasn't the Welsh Ministers, because there was no such entity. That's what it is. It's to prepare 'the strategy', 'a strategy'. So, there's no point in amending it to 'the Welsh Ministers'. It's done. It was done, there was a duty for someone to do it. Whoever was under that duty— the Secretary of State for Wales, presumably, or somebody— did it. Done. End of. So, there's no point in*

[100] O.S. 1999 / 672

*amending it backwards to say it should be the Welsh Ministers who didn't exist at the time (…)*

*And then there have been recent amendments made in England under the Environment Act 2021, and they are all based on the assumption of a single strategy as well. So, it's quite a complicated set of things here.”*[101]

**161.** Dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog y canlynol:

*“…the drafting refers to the strategy in section 80 and throughout Part 4 of the Environment Act. What we're seeking to achieve here is to create a power for the Welsh Ministers to amend that period of review, to do that relatively discrete change, and then also to make the amendments you talked about. To put it on the face of the legislation— wherever it refers to the 'Secretary of State', to change that to the 'Welsh Ministers'— would've been a very complicated set of amendments throughout the Environment Act, because there are a lot of functions of the Secretary of State in that Act that have now, through an admittedly complicated but a very well-trodden route, transferred to the Welsh Ministers. As the Minister said, it wasn't something we felt was necessary, as the Welsh Ministers do have those functions, albeit not on the face of that particular piece of legislation. But also it would've gone beyond what we were seeking to achieve with our amendments.”*[102]

## Ein barn ni

**162.** Rydym wedi tynnu sylw at y cyfle a gollwyd o beidio â chydgrynhoi darpariaethau yn Rhan IV o Ddeddf 1995 yn y Bil hwn ac rydym wedi gwneud argymhelliad yn gofyn i'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliannau i ymdrin â'r safbwynt hwnnw.

[101] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [42 i 43]
[102] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [44]

**163.** Mae adrannau 9 i 11 o'r Bil yn enghraifft glir o pam rydym yn credu bod angen cydgrynhoi. Nid yw'n bosibl dirnad, o ddarllen y darpariaethau hyn, yr hyn y mae'r Gweinidog yn ceisio ei gyflawni'n llawn, yn enwedig gan fod adran 80 o Ddeddf 1995 yn dal i gyfeirio at yr Ysgrifennydd Gwladol.

**164.** Yn ein barn ni, dylai'r Gweinidog fod wedi achub ar y cyfle i roi sicrwydd ac eglurder i randdeiliaid a defnyddwyr terfynol drwy ddefnyddio'r Bil i nodi bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i greu strategaeth ansawdd aer genedlaethol; gallai cydgrynhoi fod wedi dilyn o ailddatgan yr egwyddor allweddol honno. Er ei bod yn bosibl na fyddai'r dull hwn wedi bod yn gwbl angenrheidiol o ran drafftio i gyflawni'r newid a ddymunir, byddai wedi bod o fudd i randdeiliaid a defnyddwyr terfynol y ddeddfwriaeth, gan liniaru'r angen i dreillio drwy ddarnau gwahanol o ddeddfwriaeth sylfaenol ac Is-ddeddfwriaeth i ddeall adran 80 o Ddeddf 1995 yn llawn.

**165.** Felly, nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y dadleuon a ddatblygodd dros fabwysiadu'r dull yn y Bil ac rydym yn credu mai hygyrchedd y ddeddfwriaeth a ddylai fod wedi bod y sbardun, yn hytrach na rhwyddineb drafftio. Credwn y dylai fod yn bosibl i bryderon am y ffaith bod strategaeth aer genedlaethol eisoes yn bodoli gael eu goresgyn drwy gydgrynhoi adran 80 o Ddeddf 1995 yn briodol.

**Argymhelliad 28.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gydgrynhoi adran 80 o Ddeddf 1995 yn y Bil ac egluro bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, nid yr Ysgrifennydd Gwladol, i lunio a chyhoeddi strategaeth ansawdd aer i Gymru.

**Adran 16 - Rheoleiddio mwg a thanwydd mewn ardaloedd rheoli mwg**

**166.** Mae adran 16(2) yn mewnosod adrannau 19E-19H newydd yn Rhan 3 o Ddeddf 1993. Mae adran 18 o Ddeddf 1993 yn galluogi awdurdod lleol i wneud gorchymyn rheoli mwg yn datgan y cyfan neu unrhyw ran o'i ardal yn ardal rheoli mwg. O dan adran 19 o Ddeddf 1993, caiff Gweinidogion Cymru, dan amgylchiadau penodol, gyfarwyddo awdurdod lleol yng Nghymru i arfer ei bwerau i greu ardal rheoli mwg.

**167.** Mae adran 19E newydd o Ddeddf 1993 yn cymhwyso Atodlen 1A i Ddeddf 1993 o ran Cymru fel bod cosb sifil am allyrru mwg heb awdurdodiad mewn ardal rheoli mwg. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud diwygiadau pellach i

Atodlen 1A i Ddeddf 1993 at y diben hwnnw. Mae’r troseddau yn adran 20 o Ddeddf 1993 wedi eu diddymu o ran Cymru gan baragraff 10 o Atodlen 1 i’r Bil.

**168.** Mae adran 19H(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, atal dros dro neu lacio Atodlen 1A i Ddeddf 1993 (cosb am allyrru mwg) neu adran 19F(1) (troseddau mewn perthynas â phrynu a gwerthu tanwydd). Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan ei bod yn:

> *"briodol i'r pŵer hwn gael ei gynnwys yn y Rheoliadau, am fod angen i Weinidogion Cymru fod â’r disgresiwn ynghylch gwneud darpariaeth o'r fath neu beidio. Dim ond pan fydd yn angenrheidiol neu'n hwylus yn eu barn nhw y dylent wneud hynny."*[103]

**169.** Mae’r pŵer i wneud rheoliadau’n ddarostyngedig i’r weithdrefn negyddol. Mae’r Gweinidog yn datgan mai’r rheswm dros hyn yw ei bod yn “weithdrefn a reolir gan adran 63 o'r Ddeddf Aer Glân."[104]

**170.** Mae’r Gweinidog hefyd yn datgan y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

> *“Nid ydym wedi gwneud rhoi gorchmynion rheoli mwg ar waith yn orfodol, ac nid effeithiwyd ar ein pwerau i gyfarwyddo awdurdodau lleol i greu ardal rheoli mwg. Yn hytrach, byddwn yn datblygu canllawiau statudol i [g]efnogi awdurdodau lleol i weithredu eu pwerau newydd, a byddant yn gallu ystyried rôl ardaloedd rheoli mwg pan fyddant yn rheoli ansawdd aer yn lleol.”*[105]

**171.** Gwnaethom ofyn i’r Gweinidog pam y mae wedi dewis y dull gweithredu hwn. Dywedodd y canlynol:

> *“We already have a power to direct a local authority to create a smoke control area, if necessary, so we already have an existing power under the Clean Air Act 1993, as I understand it. If we*

[103] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 73
[104] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 73
[105] Memorandwm Esboniadol, paragraff 4.22

*mandated them, then all kinds of other issues then follow. If you mandate a smoke control area, then anyone living in that area might have individual costs that are quite substantial placed on them to retrofit home appliances and all the rest of it. We'd have to put a specific consultation out about the individual effect of that. We talked about human rights earlier on; we would certainly be straying into that area. We're in a cost-of-living crisis (...) We want to encourage and work with our local authorities to do the monitoring necessary and do the work locally necessary to educate people about the effect of what they're doing, rather than mandate something and then force people to do it. We always take that approach. There are four smoke control areas already in Wales, as I'm sure you know. We're changing the way that we enable a local authority to enforce those, because they've been largely unenforced."*[106]

### Ein barn ni

**172.** Rydym yn nodi sylwadau'r Gweinidog mewn cysylltiad ag adran 16 o'r Bil.

**173.** Rydym yn fodlon â'r weithdrefn negyddol mewn cysylltiad â'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 16(2). Fodd bynnag, nodwn mai'r cyfiawnhad dros ddefnyddio'r pŵer yw ei fod yn cael ei reoli gan y weithdrefn yn adran 63 o Ddeddf 1993. Wrth gyfiawnhau'r defnydd o weithdrefn benodol, dylai Llywodraeth Cymru ymdrin â natur y pŵer sy'n cael ei gymryd, yn hytrach na dibynnu ar y weithdrefn bresennol ar gyfer pŵer cyfatebol neu debyg mewn Deddf bresennol.

### Adrannau 19 i 21 – Allyriadau cerbydau

**174.** Mae adran 167 o *Ddeddf Trafnidiaeth 2000* (Deddf 2000) yn nodi dan ba amgylchiadau y caiff Gweinidogion Cymru wneud Gorchymyn o dan adran 168 o Ddeddf 2000 ar gyfer cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.

**175.** Mae adran 19 (Cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd) yn estyn pwerau Gweinidogion Cymru i wneud Gorchymyn ar gyfer cynllun codi tâl ar

[106] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [145]

ddefnyddwyr cefnffyrdd yng Nghymru, i alluogi gwneud cynlluniau at ddiben lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno yng nghyffiniau'r ffordd honno. Mae pŵer presennol Gweinidogion Cymru i wneud cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd gan adran 167(2) o Ddeddf 2000 i amgylchiadau pan fo'r ffordd y bwriedir sefydlu'r cynllun codi tâl arni yn cael ei chario gan bont, neu'n mynd drwy dwnnel (o leiaf 600m o hyd), neu pan fo awdurdodau traffig penodol eraill yn gofyn am greu cynllun codi tâl ar y cyd.

**176.** Nid yw'r pŵer gwneud Gorchmynion yn ddarostyngedig i weithdrefn. Yn y Memorandwm Esboniadol, mae'r Gweinidog yn datgan y rheolir y weithdrefn hon "gan ddarpariaethau presennol yn Neddf Trafnidiaeth 2000 (adran 169)."[107]

**177.** Mae adran 20 (Darpariaeth bellach sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd) yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cymhwyso'r enillion net o gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a wneir at ddibenion lleihau llygredd aer neu gyfyngu arno.

**178.** Mae Atodlen 2, paragraff 6, yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ac mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd ei bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol.[108]

**179.** Mae adran 21 yn diwygio adran 87(2) o Ddeddf 1995 i alluogi rheoliadau i gael eu gwneud sy'n nodi ystod ariannol o gosbau am y drosedd segura llonydd. Mae gan Weinidogion Cymru eisoes y pŵer o dan adran 87(2) i wneud rheoliadau sy'n pennu cosb o swm rhagnodedig. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol oherwydd bod "rheoliadau a wneir o dan adran 87 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol."[109]

**180.** Mae'r Gweinidog yn datgan yn y Memorandwm Esboniadol nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd ar ffyrdd Cymru.[110] Wrth gael ei holi gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar y pwynt hwn, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

[107] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 73
[108] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 78
[109] Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 74
[110] Memorandwm Esboniadol, paragraff 3.177

> *"I know it does seem counterintuitive that we're taking powers to do something we're not planning to do. But it's because we want to futureproof this Bill; we don't want to have to come back with more primary legislation in circumstances where, actually, we haven't been successful in reducing airborne pollutants as a result of vehicle emissions by the other measures that we're taking forward."*[111]

**181.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog pam na wnaeth adael i lywodraeth yn y dyfodol gyflwyno ei deddfwriaeth ei hun, o ystyried yr holl ddatblygiadau gwyddonol diweddar a data gwell, ac a fyddai'n galluogi rhagor o waith craffu ar unrhyw dâl y mae llywodraeth yn y dyfodol am ei weithredu. Nododd y Gweinidog y gallai cyfuniad o fesurau gan gynnwys technoleg ac annog newidiadau mewn ymddygiad olygu nad oes angen cynllun, cyn ychwanegu'r canlynol:

> *"But, if that's not successful, then we may need to do it, and I don't think leaving it to a future Bill is the right thing to do at all. It might come to the fact that we need to do it sooner rather than later.*
>
> *So, I'm a big believer in social change taking time and education, not legislation, but I don't think leaving it a hostage to fortune because we haven't been able to do it is the right path either. I know it's an unusual thing for a Minister to say, 'I want this power, and I have no intention of using it,' but I have no intention of using it right now, I suppose."* [112]

**182.** Nodwyd y bydd gan unrhyw gynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd nifer o amcanion gwahanol yn ychwanegol at y rhai sy'n ymwneud ag ansawdd aer ac felly gwnaethom ofyn a oedd y Gweinidog yn cymryd yr holl bwerau y mae ar Lywodraeth Cymru eu hangen i gyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Ymatebodd y Gweinidog drwy ddweud y canlynol:

---

[111] Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, 29 Mawrth 2023, Cofnod y Trafodion [150]

[112] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [123 i 124]

*"…road charging schemes for other purposes— and a whole series of other purposes, actually— are something that we may well consider in the future, but this is a kind of 'right now' issue, really, and if a government brings forward a more general road charging scheme, for the purposes of raising the money to build it, for example, then I would expect that Bill to take it into account."*[113]

**183.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod safbwynt Llywodraeth Cymru yn gulach,[114] cyn ychwanegu'r canlynol:

*"We don't have right this second any intention of introducing one, but we know of two places in Wales where there could well be an intention to make one in the next three to five years. (…).*

*… it would be irresponsible not to take the powers to do it if that is the only way that we can get the air quality to improve. That's the truth of it."*[115]

**184.** Nodwyd hefyd nad oes gofyniad yn y Bil ar hyn o bryd i Weinidogion Cymru ymgynghori ar gyflwyno tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd a chodwyd hyn fel mater gyda'r Gweinidog. Dywedodd y Gweinidog y canlynol wrthym:

*"What we didn't want to do is have another list of consultation issues in this Bill that would be rapidly outdated. I don't know if the committee's aware, but we're always having to add people in to consultations because they didn't exist at the time, and all the rest of it. So, we have an overarching duty as a Welsh Government to consult on things that affect members of the Welsh public, and also, if we put a road charging scheme in place, the scheme itself would be consulted on, so I don't see that the Bill needs to do that, myself."*[116]

---

[113] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [132 a 135]
[114] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [137]
[115] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [125 a 128]
[116] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [139]

## Ein barn ni

**185.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog sy’n awgrymu nad yw, ar hyn o bryd, yn bwriadu defnyddio'r pwerau y mae'n eu cymryd mewn cysylltiad â gwneud cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Fel mater o egwyddor, nid ydym yn credu ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru gymryd pwerau rhag ofn y gall fod eu hangen yn y dyfodol, yn enwedig pan fo’r polisi yn fwy priodol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol. Byddai defnyddio Bil yn ddiweddarach hefyd wedi galluogi datblygu polisi mwy cynhwysfawr, hollgynhwysol a hygyrch ar gynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.

**186.** Er gwaethaf ein pryderon ei bod yn amhriodol i'r Gweinidog gymryd pwerau nad yw'n bwriadu eu defnyddio, nodwn nad oes darpariaethau yn y Bil ar hyn o bryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ymgynghori ar gyflwyno cynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd. Rydym hefyd yn nodi safbwyntiau'r Gweinidog fel y’u nodir ym mharagraff 184 uchod. Fodd bynnag, rydym yn cyferbynnu'r rhain â'i sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol (gweler paragraff 141 uchod) ac adran 12 o'r Bil, sy'n diwygio Deddf 1995 i wneud darpariaethau ymgynghori yn y Bil hwnnw'n fwy adlewyrchol o arfer gorau.

**Argymhelliad 29.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn cyflwyno cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd.

**187.** Rydym yn fodlon â'r gweithdrefnau sydd ynghlwm wrth wneud is-ddeddfwriaeth yn adrannau 19 ac 21, ac Atodlen 2.

**188.** Fodd bynnag, mewn cysylltiad ag adrannau 19 ac 21, rydym yn ailadrodd y farn a fynegwyd gennym uchod, wrth gyfiawnhau'r defnydd o weithdrefn benodol, y dylai Llywodraeth Cymru ymdrin â natur y pŵer sy'n cael ei gymryd, yn hytrach na dibynnu ar y weithdrefn a fabwysiadwyd ar gyfer pŵer cyfatebol neu debyg mewn Deddf bresennol.

**189.** Roedd diffyg cywirdeb yn y cofnodion ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau yn adran 21 a pharagraff 6 o Atodlen 2. Fel pwynt cyffredinol, yn ein barn ni, dylai mwy o ofal fod wedi’i gymryd wrth lunio'r cofnodion hyn, gan dynnu ar y Nodiadau Esboniadol i'r Bil pe bai angen.

## Rhan 2 – Seinweddau

**190.** Mae adran 22(1) o'r Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi strategaeth genedlaethol yn cynnwys eu polisïau mewn perthynas ag asesu a rheoli seinweddau yng Nghymru.

**191.** Gwnaethom ofyn pam nad oes diffiniad o seinweddau ar wyneb y Bil. Ymatebodd y Gweinidog:

> *"…this isn't a stand-alone Bill; it has to be read in conjunction with other things. 'Soundscape' is formally defined in 'Planning Policy Wales', and there's been a recent consultation draft of technical advice note 11, which I'm sure the committee has spotted. So, that has a consultation draft that is the British and international standard definition, so 'the acoustic or sound environment as perceived or experienced or understood by a person or people in the context they are'. That's the definition, because it's the definition in other parts of Welsh Government documentation"*[117].

**192.** Dywedodd y canlynol hefyd:

> *"If you put too precise a definition on the face of the Bill, only to find that it's changed in the next four years, because this is definitely a moveable feast here, then we would have a real problem. Whereas, if it's contained in the TANs, and in 'Planning Policy Wales', you have a very good way of updating it on a very regular basis, as the TANs are, as you know, subject to periodic review and consultation; in fact, we've just done one. So, the TANs are under constant review. Amongst the many things I do all day is partaking in a large number of meetings with local authorities about the review of various TANs. And I just think it's a much better way of making sure that the definition is fit for purpose on an ongoing basis than tying it down on the face of the Bill, as it is a pretty emerging area."*[118]

[117] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [150]
[118] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Mai 2023, Cofnod y Trafodion [154]

**193.** Mae adran 24 (Pŵer i newid cylchoedd ar gyfer gwneud mapiau sŵn strategol ac adolygu cynlluniau gweithredu ar sŵn) yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i newid yr ysbeidiau y mae'n rhaid gwneud a mabwysiadu mapiau sŵn strategol o dan reoliad 7(2) o Reoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006 arnynt ac i newid y cyfnod y mae'n rhaid cynnal adolygiadau o gynlluniau gweithredu ar sŵn o dan reoliad 17(3)(b) o Reoliadau 2006 ynddo.

## Ein barn ni

**194.** Nodwn farn y Gweinidog ynglŷn â'r diffiniad o seinweddau.

**195.** Fodd bynnag, mewn Bil sy'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer seinweddau, byddem yn disgwyl gweld diffiniad o'r term hwnnw ar ei wyneb fel modd o hwyluso ei ddealltwriaeth. Bydd yn gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy hygyrch ac yn darparu sicrwydd. Credwn y byddai diffiniad statudol yn y Bil yn fwy priodol na chynnwys un mewn canllawiau.

**196.** Ar ben hynny, nodwn o dystiolaeth y Gweinidog fod y diffiniad a gynigir yn nodyn cyngor technegol 11 yn ddiffiniad safonol Prydeinig a rhyngwladol. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd yn glir i bob dinesydd bod y diffiniad yn ymddangos mewn canllawiau cynllunio neu nodiadau cyngor technegol. Mae'n dal i fod yn aneglur i ni pa mor aml y gall fod angen diwygio'r diffiniad. Os bydd angen ei ddiwygio, gellid cyflawni hynny drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 30.** Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i gynnwys diffiniad o seinweddau ar wyneb y Bil.

**Argymhelliad 31.** Ar y cyd ag argymhelliad 30, os oes angen, dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i ganiatáu i'r diffiniad o seinweddau gael ei ddiwygio drwy reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**197.** Rydym hefyd yn nodi'r pwerau yn adran 24 o'r Bil i alluogi diwygio dau reoliad yn Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006, ond nid yw'n glir i ni pam y maent yn cael eu cymryd.

**Argymhelliad 32.** Dylai'r Gweinidog esbonio:

- pam y mae angen defnyddio'r Bil i gymryd pwerau i ddiwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006;
- pam y mae'r pwerau sy'n cael eu cymryd wedi'u cyfyngu i reoliadau 7(2) a 17(3)(b) yn unig;
- beth y byddai effaith peidio â chymryd y pwerau;
- a oes pwerau yn bodoli eisoes i ddiwygio Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006.